# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071

Rhifyn 308 - 60c
Tachwedd 2012


Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg


**Catrin Finch yn y Clwb Cerdd**




Tudalen 13

**Dewi Pws yn dathlu gyda Dylan**



Tudalen 9

**Owain yn chwarae yn Abertawe**



Tudalen 4

## Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr

(Adroddiad Tudalen 8)



Rhian Davies, Llanllwni yn gyntaf yn y Monolog a'r llefaru dan 21



Roedd Clwb Llanllwni a Llanfynydd yn gydradd ail yn yr Eisteddfod



Owain Davies, Llanllwni yn gyntaf ar yr adroddiad digri




Meino i gerddoriaeth Clwb Cwmann



Aelodau sgets buddugol Clwb Dyffryn Cothi

## Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant



Agorwyd a chlowyd cyngerdd cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro gan Gôr Unedig Ysgolion y Cylch (gan gynnwys Ysgol y Dderi) o dan arweiniad Rhiannon Lewis gyda Delyth Hopkins Evans ar y piano a Dafydd Syfydrin ar y drymiau.

# Cefnogaeth Llambed wedi diflaniad April Jones Machynlleth



Gollyngwyd dros 500 balwn binc i'r awyr ar gae Clwb Rygbi Llanbed i gofio am April Jones, y ferch fach sydd ar goll. Derbyniwyd rhoddion ar gyfer ei chronfa. Cafwyd anerchiad gan y maer a'r faeres, y Cyng. Kistiah a Carol Ramaya. Gyda nhw mae'r trefnwyr Nikkie Davies a Fiona Davis, a aeth â grŵp i Fachynlleth i helpu chwilio am y ferch fach. O'r chwith: Nerys Evans; Gabrielle Cattell; Claire Holland; Nikkie Davies; Carys Coles; David Thomas ac Eoghan Holland-Thomas; Nicole Hunter; Fiona Davies; Emma Sterley; Barbara Jones a Iona Harrison.



# Priodas Dda



Ar y 9ed o Awst 2012 yn Eglwys Sant Tysul, Llandysul priododd Siôn Ifan, mab Mr a Mrs Alan Williams Tŷ Mari, Llandysul a Gabrielle-Luca Antionette, merch Mr a Mrs Andrew Browne, Treboeth, Abertawe.


Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Tachwedd a Rhagfyr | Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen | 480526 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips | |
| Dylunydd y mis: | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

• Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
• Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
• Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
• Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
• Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
• Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - **www.facebook.com/clonc** a Trydar - **@Cloncyn**
• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
• Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
• Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Oes, mae 'na lecsiwn!**

Ar y 15fed o Dachwedd, pleidleisiwch ar gyfer eich "Comisiynydd yr heddlu a throseddu lleol". Ydych chi'n gwybod pwy sy'n sefyll? Fe allwch gael gwybod trwy fynd ar y we -www. dewisfyCHTH.org.uk

Rydw i newydd fod ar y we a chael gwybod na fydd enwau'r ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi tan Hydref y 26ain. Diau y cawn fwy o wybodaeth erbyn diwrnod y pleidleisio. Gobeithio, beth bynnag!

Fe fedrwch dderbyn llyfryn sy'n esbonio'r cyfan os y ffoniwch 0800 1 070708.

Beth fydd y Comisiynydd yn ei wneud? "Bydd yn sicrhau fod yr heddlu yn canolbwyntio ar y troseddau sy'n bwysig i chi, p'un a yw hynny'n taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau bwrgleriaeth, trais domestig, neu daclo masnachu cyffuriau."

Bydd llawer mwy o ddyletswyddau gan y Comisiynydd hefyd ac fe gaiff ei dalu'n dda.

Ceisiwch gael cymaint o wybodaeth ag y medrwch cyn Tachwedd y pymthegfed; darllenwch bob gwybodaeth a ddaw drwy eich drws fel bod nifer go dda yn troi allan i bleidleisio.

**A oes gennych gyfrifiadur?**

Mae'r awdurdodau yn cymryd yn ganiataol heddiw fod gennych y gallu i gyfathrebu â nhw trwy ddefnyddio'r teclyn yma. Diau fod canran helaeth yn medru, ond mae llawer iawn, iawn heb yr un. Rhaid cofio fod y rhain yn bwysig hefyd.

**Galwadau Ffôn**

Dyna farn yw'r rhain ar adegau. Ydych chi wedi cael galwad yn dechrau drwy eich cyfarch â'r gair "Llongyfarchiadau"! Mynd ymlaen wedyn i ... o na, erbyn hyn rwyf wedi rhoi'r teclyn lawr. Cwmnïau trydan a nwy yn cynnig telerau newydd am gyflenwi pŵer. Fy ymateb bob tro yw " Mae gennych fy nghyfeiriad, danfonwch y manylion ar bapur". Nid wyf wedi derbyn dim oddi wrthynt hyd yn hyn.

**Siopa dros y WE!**

Mae faniau cwmni archfarchnad o Ferthyr yn teithio yn aml iawn, iawn heibio'n tŷ ni, gymaint â dwywaith neu dair y dydd ar adegau. Ydy, mae'n gyfleus dros ben ac mae'n rhatach gan nad ydych yn gweld rhywbeth sy'n dwyn eich ffansi a chithau'n ei roi yn eich basged siopa. Ond tybed a fyddan nhw gyda ni pan fydd lluwchfeydd ar Fannau Brycheiniog? A fydd gobaith cael gwobr raffl ganddynt? A fydd y rhain yn talu trethi yn eich ardal chi? Pwy wyf i i farnu?

Dyna'r cyfan am y tro. Pob hwyl,
*Cloncyn*

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

# Cellan



Kistiah Ramaya, Cludwr y Fflam a Maer Llanbed; Delyth Jones, Llywydd Sefydliad y Merched Cellan; Wendy Davies, Ysgrifennydd; Carol Ramaya, Cludwr y Fflam a Maeres.

Ddydd Mercher 3ydd Hydref yn dilyn Cyfarfod Blynyddol cangen Sefydliad y Merched Cellan yn y Pantri, Stryd Fawr, Llanbed bu Kistiah a Carol Ramaya yn sôn am eu profiad yn cludo'r fflam Olympaidd yn Aberteifi ym mis Mai. Fe ddangoson nhw sioe sleidiau ac roedd hynny yn cyfleu'r holl gynnwrf ymhlith y dorf o 4,000 a ddaeth i groesawu Clydwyr y Fflam yn Aberteifi. Roedd yr awyrgylch yn rhyfeddol a'r profiad yn un a fydd yn aros yng nghof pobl am gyfnod maith.

**Ysbyty**

Gwellhad buan i Mary Carter, Gwêl y Waun yn dilyn ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Mae pawb yn falch gweld fod Mari Jones, Hafan wedi gwella yn dilyn ei anhwylder a'i chyfnod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

**Sinema**

Y mis yma, mae tair ffilm yn cael eu dangos yn Neuadd y Mileniwm. Croeso i bawb ddod i weld y canlynol: Woman in a Dressing Gown (12) ar Dachwedd y 9fed, Moonrise Kingdom ar Dachwedd y 23ain, a Men in Black 3 (PG) ar Dachwedd 30ain.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**TACHWEDD**

1 a 3 Eisteddfod Sir C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
2 Noson gan Blaid Cymru yng nghwmni Tecwyn Ifan yn Clwb Rygbi Llambed am 7.30y.h.
2 Stomp y Beirdd yng ngofal Tudur Dylan Jones yn Neuadd Pumsaint. Tocynnau £5 yn cynnwys lluniaeth ysgafn.
2 Cinio Blynyddol Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7.30yh. Tocynnau yn £20 ar werth gan Iwan 422370 neu Gareth 423396.
4 Cymdeithas Cerdd Llambed yn cyflwyno Dominant Quartet am 7.30yp yn Hen Neuadd y Coleg.
6 Aelwyd yr Urdd Llambed.
6 Swper Cynhaeaf CFfI Llanllwni am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys Maesycrugiau.
6 Pwyllgor Buddiannau'r Henoed Llanybydder yn yr ysgol am 7.00y.h. Croeso i aelodau newydd.
7 Gyrfa Chwist Hafan Deg, Llambed.
9 Swper a Chabaret yng nghwmni'r digrifwr Tudur Owen yn Neuadd Pumsaint. Tocynnau £15.
9 Ffilm "Woman in a Dressing Gown" (12) Anthony Quinn yn Neuadd Mileniwm Cellan. Drysau'n agor am 7.15yh.
14 Cyfarfod Cynghrair Ward Llanwenog a'r Cyffiniau am 8 o'r gloch yng Nghefn Hafod. Bydd Meriel o 'Cynnal y Cardi' yn bresennol.
17 Eisteddfod C.Ff.I Cymru yn Sir Benfro.
19 Bingo Nadolig yn Nhafarn Talardd, Llanllwni am 8.00y.h.
20 Aelwyd yr Urdd Llambed.
20 Cymdeithas Hanes Llambed yn cyflwyno Selwyn Walters: O Lambed i Salonika: Nyrs Ella Richards yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am 7.30yh.
21 Gyrfa Chwist Hafan Deg, Llambed.
24 Arwerthiant Blynyddol Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p.
24 Ffair y Nadolig Siambr Fasnach Llambed 12yp-6yh.
25 Cymdeithas Cerdd Llambed yn cyflwyno Timothy Orpen & Alison Farr am 2.30yp yn Neuadd Y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
25 Oedfa'r Urdd yn Noddfa am 5.00y.h.
28 Cyrri a Chlonc yn y Sheesh Mahal yng Nghaerfyrddin am 7.30y.h. Tocynnau yn £12 yr un. Tocynnau ar werth yn swyddfa C.Ff.I. Sir Gâr 01267 237693.
30 Ffilm "Men In Black" (PG) Will Smith yn Neuadd Mileniwm Cellan. Drysau'n agor am 7.15yh.

**RHAGFYR**

4 Aelwyd yr Urdd Llambed.
6 Bingo C.Ff.I. Cwmann yng Nghanolfan y Pentref.
9 Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I. Ceredigion.
9 Cyngerdd yn Eglwys Sant Iago, Cwmann am 6.00y.h. gydag 'Ar Wasgar'.Elw tuag at Ymchwil Parkinson ac Eglwys Sant Iago.
28 Dawns Brenhines a Ffermwr Ifanc C.Ff.I Ceredigion yn Pier Pressure Aberystwyth, tocynnau ar gael o Swyddfa'r Sir am £10 i rai dros 18 oed.

**IONAWR 2013**

20 Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion.
22 Cymdeithas Cerdd Llambed yn cyflwyno Daniel Evans am 7.30yh yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant.

**CHWEFROR**

11-15 a 18 Cystadleuaeth Drama C.Ff.I. Ceredigion.
12 Cymdeithas Cerdd Llambed yn cyflwyno Fabien Genthialon am 7.30yh yn Neuadd y Celfyddydau, Y Drindod Dewi Sant.
15 Noson Sant Ffolant Sefydliad Prydeinig Y Galon Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant. Swper Ysgafn. Artistiaid: Mr Clive Edwards a Lleisiau'r Werin am 7.30 o'r gloch. Tocynnau: £12.50.

**MAWRTH**

2 a 3 Gwledd o Adloniant C.Ff.I Cymru yn Abertawe.
8 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion.
10 Cymdeithas Cerdd Llambed yn cyflwyno Inner City Brass am 2.30yp yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant.

**EBRILL**

15 Gala Nofio C.Ff.I. Ceredigion.
27 Diwrnod Chwaraeon C.Ff.I. Ceredigion.

# Silian

**Bethel**

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bedyddwyr, Bethel, Silian yn ddiweddar. Cafwyd anerchiad diddorol a bywiog gan y Parchedig Huw George, Capel Blaenconin, sydd hefyd yn Ddirprwy Arweinydd Cyngor Sir Benfro. Rhoddwyd gweddi gan Iwan Uridge i ddechrau'r oedfa a chyhoeddwyd yr emynau gan Gethin Morgan, Aron Davies, Owen Morgan a Dewi Uridge. Y Parchedig Jill Tomos oedd yng ngofal y diolchiadau a'r gras.

# Cwmsychpant



**Llwyddiant ym Myd Pêl Droed**

Daeth y newyddion am lwyddiant Owain Jones, Blaenhirbant Uchaf yn ystod y mis. Mae wedi cael ei ddewis i chwarae Pêl Droed i Ddinas Abertawe yn y tîm dan 11oed. Mae yn brysur yn mynd i'r ymarferion dair gwaith yr wythnos ac yn chwarae gêm bwysig yn erbyn timoedd o bob cwr o'r wlad ar y penwythnosau. Llongyfarchiadau gwresog i ti Owain ac edrychwn ymlaen at glywed mwy am y pêl-droediwr ifanc yma o Gwmsychpant yn y dyfodol agos.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Yn ystod mis Hydref fe ddaeth hi'n adeg cynnal ein hoedfa o ddiolch am y cynhaeaf unwaith eto. Daeth tyrfa luosog i Gapel y Cwm ar nos Iau, Hydref 18fed pan groesawodd y gweinidog, Parch Wyn Thomas ein gweinidog gwadd, sef y Parch Eirian Wyn Lewis o Fynachlog Ddu. Roedd ei neges yn sionc ac yn ddealladwy iawn – ac roedd pawb o'r plentyn ieuengaf at yr oedolyn hynaf wedi mwynhau ei neges yn fawr iawn. Yr organyddes oedd Meleri Williams, Clyncoch a diolchwyd i bawb am oedfa gartrefol iawn ei naws gan y Parch Wyn Thomas.

**Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul**

Bu Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul ar fore braf ar Hydref 21ain. Bu'r plant i gyd yn cymryd rhan a gwelwyd y capel wedi ei addurno'n llawn llysiau a ffrwythau'r hydref. Diolch i Einir am gyfeilio.


**Alec Page Gof**

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
*Dewch i drafod eich syniadau.*
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
**01570 423955**

COMPASS OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

**T. Emyr Jones Adeiladwr**
Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
**3 Stryd y Bont**
**Llanbedr Pont Steffan**
**01570 423156**

**Cludfwyd Indiaidd**
*NEHAR*

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
**10 Stryd y Bont, Llambed**
**☎ 01570 422893 / 422175**

# Lle aeth pawb?





Ar drowthwy Sul y Cofio dyma lun o adeg Yr Ail Ryfel Byd a ddanfonwyd gan Eric Williams, Y Fedw, Cwmann. Llun a dynnwyd 70 o flynyddoedd yn ôl ym 1942 yn Llanybydder. Yn eu plith mae James Polis Cwmann (chwith) a Dr Tun Llanybydder (canol) gyda bechgyn a merched yr ardal yn y gwisgoedd a ddarparwyd iddynt ac a hyfforddwyd gan y Red Cross i wneud cymorth cyntaf petai unrhyw berygl yn dod i'r ardal oherwydd y rhyfel. Eric (Treherbert gynt) yw'r bachgen yn y blaen ar y dde gyda Nesta Davies No 2, a'i frawd Brynley ar y chwith gyda Noel James, Ram. Rhai o ferched eraill Cwmann y gellir eu henwi yw Adeline Jones, Glaneiddig; Marian Rees, Ty Capel; Ceinwen Edwards, Coedeiddig; Mary a Ray Jones, Gelliddewi; Sally Davies, Penlan; Liz Williams, Capel Stwr a Nora Evans, Neuadd Fach. Ydych chi'n gallu eu hadnabod nhw yn y llun? Allwch chi enwi unrhyw un arall?


Cymdeithas Alzheimer's Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk**

Elusen gofrestredig rhif 296645


# Pencarreg

**Aduniad Ysgol Fach Pencarreg**

Mae'r olwyn wedi dechrau troi. Dechreuodd gyda galwad ffôn oddi wrth Eirene Jones sy'n 91 oed o Bontypridd. Arferai Eirene fyw yn Tanllan ac yr oedd ei mab Gareth yn ddisgybl yn yr ysgol ym Mhencarreg.

Roeddwn mor falch clywed wrth Eirene ac mae wedi fy sbarduno i barhau gyda'r gwaith.

Dywedodd ei bod yn derbyn CLONC bob mis gan fwynhau ei ddarllen yn fawr iawn a'i bod hi a Gareth yn edrych ymlaen at gwrdd â chyfeillion o'r dyddiau gynt yn yr aduniad. Nawr te, mae eisiau rhagor o help arna i er mwyn cysylltu gyda chymaint o bobl â phosib sydd ag unrhyw gysylltiad â'r ysgol. Mae angen lluniau, storïau, arteffactau ac yn y blaen.

Pwy wnaeth gau y drws am y tro olaf tybed? Pwy ganodd y gloch am y to olaf tybed? I ble aeth popeth – y llyfrau, y glôb, ayb? Mae gen i frith gof mynd i gyngerdd cau'r ysgol. Roedd fy wncwl Elwyn a Trefor Davies yn canu yno, os dwi'n cofio'n iawn.

Yn ôl yr hanesion rwyf wedi eu clywed cyn belled, dyddiau da, llawn hwyl a dysg heb ei hail oedd bywyd plentyn yn Ysgol Pencarreg. Codwch y ffôn – 01570 422270.

**Cydymdeimlad**

Gyda thristwch yr ydym yn estyn ein cydymdeimlad at Wynford Edwards, 8 Heol y Maes yn dilyn marwolaeth ei annwyl wraig, Charlotte. Cydymdeimlwn â Samantha a Chris, merch a mab Charlotte, Matthew ei ŵyr, a gyda Vera, ei mam yng nghyfraith a'r holl deulu yn eu colled a'u galar.

Yn dilyn gwasanaeth yn yr Amlosga yn Aberystwyth gwasgarwyd gweddillion Charlotte yn ôl ei dymuniad ar fynydd Llanybydder, un o'i hoff leoedd lle arferai gerdded ei chŵn bob dydd.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Hyfryd oedd gweld cynifer o ffyddloniaid, aelodau a ffrindiau wedi dod ynghyd i ddathlu a diolch am y cynhaeaf eleni eto yng Nghwrdd Diolchgarwch Eglwys fach Sant Padrig ar nos Sul y pedwerydd ar ddeg o Hydref.

Roedd yr eglwys yn ei gogoniant wedi ei gwisgo'n rhyfeddol o hardd yn llawn blodau o liwiau'r tymor, canhwyllau ynghynn yn taflu golau i loywi'r ffenestri lliw, ffrwythau aeddfed ac amrywiaeth o lysiau megis tatws, moron, pwmpen fawr ac erfin a oedd yn werth eu gweld ac wedi cael eu tyfu'n lleol.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal ficer y plwyf, sef William A. Strange.

Traddodwyd neges o ddiolchgarwch am y Cynhaeaf gan y pregethwr gwadd sef y Parch Philip Wyn Davies. Soniodd am draddodiadau 'slawer dydd oedd ynghlwm â'r cynhaeaf ac roedd yn wir ddiddorol.

Dywedodd mor ddiolchgar y dylem fod am gynnyrch y meysydd ac mor ddibynnol yr ydym ar lafur cariad yr amaethwyr sy'n cynnal ein bywyd a hynny dan amgylchiadau trafferthus, yn enwedig eleni â'r tywydd yn anffafriol a'r straen sydd ynghlwm â'r ffordd hyn o fyw gymaint heddiw ag yn yr oes o'r blaen. Arweiniodd ei eiriau pwrpasol at yr emyn nesaf yn y gwasanaeth sef:-

Chwi ddiolchgar bobol dewch,
Mewn sain moliant llawenhewch.
Caed y cnwd mewn addas hin
Cyn ystormydd Gaeaf blin.

Llanwyd yr Eglwys gyda'r canu ac yn ôl ei harfer Mrs Audrey Evans, Blaencarreg oedd wrth yr organ.

I'r bobl a fyddai wedi caru bod yn y cwrdd ond a oedd wedi methu oherwydd llesgedd neu anhwylder, rydym yn meddwl amdanoch.

**Diolch**

Dymuna Delyth Jacob, Frondeg, Pencarreg ddiolch o galon i bawb a ymwelodd â hi ac am y cardiau, blodau a'r rhoddion a dderbyniodd yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glangwili ac ar ôl dod adref.


**Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services**

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau
Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001
07796 682448



Sefydliad Prydeinig Y Galon
Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan
**Noson Sant Ffolant**
15 Chwefror 2013
**Ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant**
Artistiaid - Mr Clive Edwards a Lleisiau'r Werin
am 7.30 o'r gloch.
Swper Ysgafn
Tocynnau: £12.50



**Cyngerdd yn Eglwys Sant Iago, Cwmann**
**Nos Sul, 9fed o Ragfyr**
am 6.00y.h.
Artistiaid 'Ar Wasgar'
[Parti Canu Bechgyn C.Ff.I. Dyffryn Cothi].
Elw tuag at Ymchwil Parkinson ac Eglwys Sant Iago.

# Cwmann




Fiona Jones, Jason Thomas, Geinor Medi a Maxine Jones a oedd ymysg yr 20,000 o redwyr yn hanner marathon Caerdydd. Llongyfarchiadau ar gwblhau'r ras yn llwyddiannus ac ar godi arian i Apêl Nansi a Ward Meurig yn Ysbyty Bronglais.




Aelodau Pwyllgor Ffair Ram yn cyflwyno siec o £1200 i Audrey Davies o Gronfa Parkinsons. Yn y rhes blaen mae Danni Davies, Ysgrifennydd, Eirios Jones Cadeirydd, Audrey Davies, Eiddig Jones Ysgrifennydd a Ronnie Roberts Trysorydd.

**Ysgol Carreg Hirfaen**

Bu tîm traws-gwlad yr ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Gyda dros gant o blant yn cystadlu ym mhob ras, mae'n rhaid inni longyfarch Beca Ann Jones am ddod yn ail yn ei ras i ferched blwyddyn 5, tra bod Beca Mai Roberts wedi dod yn drydydd yn yr un ras. Cawsom lwyddiant yn y ras i fechgyn blwyddyn 5 gan fod Daniel Ifan Jones wedi dod yn bedwerydd a Llywelyn James yn 14eg, Chelsea Jenkins yn 9fed yn ras blwyddyn 6 a Mali Fflur Jones yn drydydd yn ras merched blwyddyn 3. Hoffwn longyfarch Seren James am ddod yn 11eg.

Hefyd yn llwyddo i orffen y ras mewn amserau gwych roedd Sion Aled Evans, Scott Griffiths, Daniel Aled, Dafydd Jones, Lowri Fflur, Gwennan Rowcliffe , Sophie Jones, David Rees, Megan Davies, Jenna Simmonds, Elin Williams, Naomi Howell, Shannon Jones, Chloe Chester.

Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 fore llawn hwyl a sbri yn canu a dawnsio yng nghwmni Martyn Geraint yn Jambori'r Urdd yn Llangrannog yn ystod y mis. Diolch i'r Urdd am drefnu.

Rydym wedi ail ddechrau gyda chlwb yr Urdd ac mae'r plant wedi bod yn brysur yn trafod pa weithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Cawsom lawer o syniadau hyfryd. Dechreuom drwy gael parti Calan Gaeaf a braf oedd gweld cymaint o ysbrydion, gwrachod a chorynnod yn cyrraedd y parti. Cawsom fwyd blasus a disgo i orffen.

Cawsom ymweliad gan Helen o Gynllun Gwên yn ddiweddar ac aeth o gwmpas pob dosbarth i sicrhau bod y plant yn brwshio eu dannedd yn gywir. Rydym yn rhan o'r Cynllun Gwên ers blwyddyn nawr a nod y cynllun yw rhoi cyfleoedd i bob plentyn yn yr ysgol frwshio eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol

Dathlodd disgyblion yr Ysgol ddiwrnod T. Llew Jones mewn amrywiol ffyrdd eleni gan gynnwys trin a thrafod ei fywyd a'i waith, edrych ar eu gymeriadau enwocaf a thrafod hoff gerddi a llyfrau T Llew Jones.

Aeth tri o ddisgyblion blwyddyn 5 yr ysgol i gystadlu mewn cystadleuaeth traws-gwlad cenedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddydd Sul, Hydref 20fed. Bu'r tri o Garreg Hirfaen yn llwyddiannus iawn mewn rasys oedd yn cynnwys tros gant o gystadleuwyr o dde Cymru a'r tu hwnt. Daeth Daniel Ifan yn 11eg, Beca Mai yn 13eg a Beca Ann yn 26ain – y tri ym mlwyddyn 5 ac yn cystadlu yn erbyn disgyblion hŷn o flwyddyn 6. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob lwc am y tymor.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol yn Nghapel Caersalem, Parc-y-rhos eleni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y disgyblion a chafwyd anerchiad hyfryd a phwrpasol gan y Parchedig Jill Thomas. Casglwyd tuag at elusen NanCY – sef elusen sy'n casglu arian ar gyfer y cyflwr Cystic Fibrosis

**Cylch Meithrin Coedmor**

Hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd ein sêl cacennau yn ddiweddar. Roedd yn llwyddiannus iawn.

Cynhelir Sioe Ffasiynau yn Neuadd St Iago, Cwmann ar nos Wener, 23ain o Dachwedd am 7.00y.h. Byddwn yn modelu dillad o Lan Lofft. Pris tocyn yw £10, sydd yn cynnwys mynediad, gwin a danteithion. Gallwch archebu eich tocynnau trwy'r Meithrin (422391) neu yn Siop Duet/Lan Lofft. Yr elw tuag at yr Ysgol Feithrin. Mae yna groeso cynnes i bawb.

Hoffwn ddymuno pob hapusrwydd i Miss Hannah ac Emlyn ar ôl dathlu diwrnod eu priodas yn ddiweddar.

**Diolch**

Hoffai Richie ac Angela Craig (Doyle) gynt o Caradog Vue, Cwmann, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ôl genedigaeth Cara ar 30 Awst yn Ysbyty Ninewells, Dundee.

**Sefydliad y Merched Coedmor**

Cynhaliwyd y cinio blynyddol ar Hydref 1af yn Sgubor Teile, Bwlchllan. Croesawodd Mary Davies y Llywydd bawb i'r noson. Estynnodd gydymdeimlad dwys yr aelodau i Noeleen Davies ar farwolaeth annisgwyl eu mam. Llongyfarchodd Dilys Godfrey ar ennill nifer o wobrwyon mewn sioeau dros gyfnod yr haf. Ar ôl i bawb fwynhau cinio blasus, croesawodd Mary ein gwestai, sef Delor James a oedd yn adnabyddus i bawb, wedi ei geni a'i chodi ar fferm Olwen ger Llanbed. Erbyn hyn mae'n byw yn ardal Blaenannerch ac yn Bennaeth Adran Gymraeg Ysgol Bro Pedr (campws uwchradd). Siaradodd ar y testun "Dylanwad" a chawsom noson fendigedig wrth iddi sôn am ddylanwad ei theulu ar ei bywyd a'i gyrfa. Diolchodd Gwynfil Griffiths i Delor am araith ddiddorol yn llawn storïau a hwyl. Diolchodd hefyd i staff Sgubor Teile am y lluniaeth ardderchog.

Ar Dachwedd 5ed bydd noson y cyfarfod blynyddol.

**Eglwys Sant Iago**

Cynhelir cyngerdd yn eglwys Sant Iago, Cwmann ar nos Sul, 9fed o Ragfyr am 6.00y.h. Artistiaid 'Ar Wasgar [Parti Canu Bechgyn C.Ff.I. Dyffryn Cothi]. Elw tuag at Ymchwil Parkinson ac Eglwys Sant Iago.

**Priodas Arian**

Llongyfarchiadau i Helen a Nick Randell, Maesyrhendre ar ddathlu pen-blwydd eu Priodas Arian yn ddiweddar.

**Henoed Cwmann**

Cynhelir cyfarfod agored Henoed Cwmann a'r cylch ar Dachwedd 19 yn y ganolfan gyda'r cogydd Gareth Richards. Croeso cynnes i bawb.

**Ysbyty**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Alun Jones, Glanrhyd a Lena Williams, 39 Heol Hathren yn dilyn eu llawdriniaeth.

**Pen-blwydd arbennig**

Mae Eirwyn Jones, Cwmaur [Glaneiddig gynt] a Tommy Price, Gelliwrol newydd ddathlu eu 80 oed. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Ceris a Llŷr Jones, 20 Cwrt Deri ar enedigaeth ei merch fach. Pob dymuniad da.

**Diolch**

Dymuna Jean Ormond a'r teulu, Tandderwen, ddiolch i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau a'r rhoddion a dderbyniom ac am bob arwydd o gydymdeimlad adeg marwolaeth Mrs Sophie Davies, 37 Heol Hathren.

**Clwb 125 mis Hydref**

1.Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren 79; 2. Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 22. 3. Mr Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni, 82; 4, Les & Marjorie, Golwg y Dyffryn, Cwmann, 67; 5. Mrs Dilys Godfrey, 31 Heol Hathren, 81; 6. Mr D.J. Evans, Blaenbidernyn Isaf, Pencarreg, 135; 7. Mrs Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, 54; 8. Miss Cai a Mair Harries, Llain Delyn, Cellan, 122; 10. Mrs Ann Davies, Brynteifi, Cwmann, 56.

Rhifyn mis Rhagfyr
Yn y Siopau
**6ed Rhagfyr**
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
**26ain Tachwedd**

# Cwmann



Rhieni a phlant yn cerdded adref ar hyd y palmant cul o Ysgol Carreg Hirfaen. Mis Hydref yw Mis Cenedlaethol Cerdded i'r Ysgol ac mae Cyngor Eco Ysgol Carreg Hirfaen yn falch clywed am gynlluniau'r Cyngor Sir i wella darn cul iawn o'r palmant rhwng yr ysgol a Thafarn y Ram. Nod y Mis Cerdded i'r Ysgol yw annog teuluoedd i gerdded â'u plant i'r ysgol. Bydd hynny'n lleihau traffig ac yn help i blant fyw'n iach.

"Mae Cyngor Cymuned Cwmann wedi bod yn ymladd ers rhyw dair blynedd i ledaenu'r palmant rhwng Ysgol Carreg Hirfaen a'r Ram," meddai'r Cyng. Ieuan Davies, sydd newydd ei benodi yn gynghorydd sir, "Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau tua adeg y Nadolig a chael ei orffen erbyn diwedd mis Mawrth," meddai.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol, Richard Workman, eu bod yn disgwyl nawr i gadarnhau'r arian sydd ei angen i godi wal gerrig wrth ymyl y palmant.



Tîm traws-gwlad Ysgol Carreg Hirfaen a fu'n llwyddiannus iawn ym Mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar.

# Clwb Clonc

## Tachwedd 2012

£25 rhif 194 :
Mrs Magw Hughes,
Pantydderwen, Llanwnnen.
£20 rhif 429 :
Siriol Thomas,
10 Llys Myrddin, Caerfyrddin.
£15 rhif 72 :
Dylan Huw Davies,
1 Tynyffordd, Rhydybont,
Llanybydder.
£10 rhif 491 :
John Davies,
Bwlchmawr, Brynteg,
Llanybydder.
£10 rhif 61 :
Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer, Llanybydder.
£10 rhif 397 :
Cerys a Steffan Roberts,
Caeronnen, Cwmann.

# Gohebiaeth

Meini Diddos, Prion
Dinbych,
LL16 4SA
gwenfyljones@btinternet.com

Annwyl Syr/Madam

Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg bob blwyddyn. Enillwyd hi yn y blynyddoedd diwethaf gan fyfyrwyr dawnus, a phleser oedd arddangos eu gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Gallwch gael Ffurfeln Gais gen i. Dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2013.

Yn gywir, *Gwenfyl Jones*

# Bag Papurau Bro

**am ddim** i chi a ffrind, wrth i chi brynu tanysgrifiad i Clonc fel anrheg Nadolig.



## Tanysgrifiad fel anrheg Nadolig

Wrth brynu tanysgrifiad i Clonc, daw'r papur bro i'ch tŷ drwy'r post deg gwaith y flwyddyn. Dim angen mynd i'r siop, a'r hwylustod o dalu unwaith yn unig.

Efallai eich bod yn adnabod rhywun sy'n byw yn bell o'r ardal. Dyma anrheg Nadolig ddelfrydol iddynt. Dim ond i chi dalu £17.50 y flwyddyn drwy siec neu archeb banc, cewch fag newydd Papurau Bro i chi ac un i'ch ffrind a fydd yn derbyn yr anrheg. Bydd tâl ychwanegol er mwyn postio tramor.

**Archeb Banc yn unig**

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cangen / Branch . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 PAPUR BRO CLONC 03434389 y swm o **£17.50** NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Dachwedd bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £17.50.

Enw llawn / Name . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./12

Arwyddwyd / Signed . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Tachwedd os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £17.50 neu fwy.
**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Clonc' ****

Enw person sy'n talu:. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Enw person fydd yn derbyn tanysgrifiad fel anrheg (os yn wahanol i'r uchod):

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .


Y Drindod Dewi Sant
LAS Recycling Ltd
Siambr Fasnach Llambed



Ffair y Nadolig
Dydd Sadwrn 24 Tachwedd 2012
12yh–6yh
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
Ymunwch â ni i ddathlu'r ŵyl Nadolig

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

# Colofn y C.Ff.I.

**C.Ff.I. Ceredigion**

Ry'n ni nawr ym mis Hydref ac mae aelodau y CFfI wedi bod yn brysur yn barod. Aeth criw o dros 80 o aelodau i Gyfarfod Blynyddol CFfI Cymru yng Nghaerdydd a braf oedd dychwelyd gyda'r 'Arad' sef y tlws i'r sir a wnaeth orau dros holl gystadlu 2011-2012. Llongyfarchiadau hefyd i Gwennan Davies, CFfI Llanwenog am gael ei dewis yn Is-Gadeirydd pwyllgor gweithgareddau Cymru.

Prin wedi gorffen eu 'sosials' oedd y clybiau ac roedd hi'n bryd meddwl am gystadleuaeth gyntaf y flwyddyn sef y diwrnod maes. Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y dydd wrth i 15 o glybiau a dros 200 o aelodau gystadlu mewn nifer o gystadlaethau amrywiol. Noddwyd y diwrnod arbennig yma gan Garej Daihatsu a Highmead Dairies, Llanybydder. Cafwyd penwythnos ychwanegol o gystadlu wrth i'r gystadleuaeth Effeithlonrwydd a Diogelwch a Ffensio gymryd lle ar fferm IBERS, Gogerddan, Penrhyn-Coch, Aberystwyth.

Dyma restr y canlyniadau:- Stocmon y Flwyddyn – Cwpan Her Cefnmaes:1af – Delyth Jones, Tregaron; 2il – Dewi Jenkins, Talybont; 3ydd - Dyfrig Williams, Llangwyryfon; 4ydd – Llŷr Jones, Pontsian. Tîm dan 26 – Cwpan Her teulu Moelifor: 1af – Pontsian; 2il – Llangwyryfon; 3ydd – Talybont. Beirniad Stoc y Flwyddyn – Cwpan Trevor Davies a'r teulu: 1af – Dafydd James, Bryngwyn; 2il – Eiry Williams, Llangwyryfon; 3ydd – Iestyn Evans, Talybont; 4ydd – Daniel Morgans, Llanwenog. Tîm dan 18 – Cwpan Her Pantyrhendy: 1af – Llanwenog; 2il – Llangwyryfon; 3ydd – Talybont. Beirniad Stoc y Flwyddyn – 14 oed a iau:- 1af - Rhys Davies, Llanwenog; cydradd 2il – Elliw Grug Davies, Caerwedros a Llŷr Jones, Talybont; cydradd 4ydd – Ifan Llŷr Davies, Llangwyryfon a Rhys Ebenezer, Llangeitho. Tîm 14 oed a iau: 1af – Penparc; 2il – Llangwyryfon; 3ydd – Llanwenog. Effeithlonrwydd a Diogelwch – Tlws Bant a'r Cart: 1af – Troedyraur; 2il – Llanwenog; 3ydd - Pontsian. Ffensio - Cwpan Cilerwisg, Felinfach: 1af – Talybont; 2il – Llanwenog. Arddangosfa Ciwb: 1af – Llangeitho; 2il – Felinfach; 3ydd – Caerwedros. Sialens ATV – Cwpan Mid Ceredigion ATB Group: 1af – Pontsian; 2il – Troedyraur; 3ydd –Mydroilyn. Gyrru Tractor a Loader: 1af – Geraint Jenkins, Talybont; 2il – Arwel Jenkins, Llanwenog; 3ydd – Llŷr Griffiths, Llangwyryfon.

Ar ôl y cystadlu brwd daeth tri clwb yn gydradd fuddugol, sef Talybont, Pontsian a Llanwenog. Dymuna C.Ff.I. Ceredigion ddiolch i bawb a fu ynghlwm â Diwrnod Maes y Sir, drwy feirniadu, benthyg stoc a pheiriannau, benthyg lleoliad, noddi, cyfrif y marciau a stiwardio. Diolch yn arbennig i Mart Llanybydder am ganiatáu i ni ddefnyddio'r cyfleusterau. Bydd enillwyr y cystadlaethau yma yn cynrychioli Ceredigion yn awr yn Niwrnod Maes Cymru a fydd yn cymryd lle ar Ebrill 13 ym Marchnad Rhuthun. Cynhaliwyd Chwaraeon Dan Do nos Wener y 12fed o Hydref yn Neuadd Llanddewi Brefi. Braf oedd gweld 18 o glybiau'r Sir yn cymryd rhan ac yn mwynhau'r cystadlu.

Dyma restr yr enillwyr: Snwcer: 1af – Gerwyn Jones, Llanddeiniol; 2il – Owain Pugh, Llanddewi Brefi. Pŵl: 1af – Dafydd James, Bryngwyn; 2il – Gareth Jones, Tregaron. Drafftiau: 1af – Rhys Davies, Llanwenog; 2il – Ffion Lewis, Llanddeiniol. Dominos: 1af – Dafydd Jones, Trisant; 2il – Megan Jones, Mydroilyn. Tenis Bwrdd Merched: 1af – Marged Jones, Mydroilyn; 2il – Gwenno Evans, Talybont. Tenis Bwrdd Bechgyn: 1af – Mydroilyn; 2il – Troedyraur. Tenis Bwrdd Dwbwl: 1af – Geraint a Rhys, Mydroilyn; 2il – Deiniol a Llew, Troedyraur. Dartiau Merched: 1af – Helen Hughes, Caerwedros; 2il – Angharad James, Pontsian. Dartiau Bechgyn: 1af – Dafydd Adams, Troedyraur; 2il – Gethin Hatcher, Llanwenog. Dartiau Dwbwl: 1af – Awen a Scott, Penparc; 2il – Mererid a Gwion, Felinfach. Tipit: 1af – Gwenllian, Sioned a Beca, Llanddewi Brefi; 2il – Huw, Mari ac Angharad, Trisant. A'r canlyniadau terfynol: 1af - Mydroilyn; 2il - Troedyraur; 3ydd - Llanddewi a Llanwenog. Diolch i Neuadd Llanddewi am gael cynnal y gystadleuaeth ac i Glwb Llanddewi Brefi am sicrhau bod yna ddigon o bop a crisps i'r cystadleuwyr. Clwb 200 mis Hydref - 1af A& E Morgan, HSBC; 2il Teulu Hafan, Llanddeiniol; 3ydd G. Mansel Jones, Hawen Hall, Rhydlewis. Mae'r clybiau yn awr yn prysur baratoi ar gyfer yr Eisteddfod, felly gwyliwch y canlyniadau yn eich rhifyn nesaf.

**Eisteddfod Sir Gâr 2012**

Ar Nos Wener, 12fed Hydref 2012, Nos Wener 19eg Hydref a Sadwrn 20fed Hydref 2012 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Bu yna gystadlu brwd gyda C.Ff.I Llangadog yn fuddugol ac yn ennill y darian, a chlybiau Llanfynydd a Llanllwni yn gydradd ail.

Yn y Darian gwaith cartref C.Ff.I Llangadog oedd eto yn 1af, a Llanfynydd a Penybont yn rhannu'r 2il wobr.

Mr Aled Maddocks oedd y beirniad cerdd, Mr Gareth Lloyd oedd yn beirniadu cystadleuaeth y Sgets, Mrs Glenys Thomas yr Adran Llefaru, Mrs Eryl Jones oedd y beirniad gwaith cartref, Mrs Natalie Thomas oedd beirniad adran y dawnsio disgo a Mr Emyr Jones oedd beirniad y gystadleuaeth Dawnsio Gwerin a Stori a Sain. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am eu gwasanaeth arbennig.

Cyfeilydd yr Eisteddfod eleni eto oedd Mr Geraint Rees, Arweinyddion yr Eisteddfod eleni oedd Mr Dylan Jones, Mrs Louise Jones, Mrs Rhian Jones, Mrs Elin Davies, Miss Meinir Jones, Mr Arwel Jones, Mrs Llinos Evans, Mr Aled Jones, a Mr Owen Davies. Mrs Llinos Jones oedd yng ngofal ysgrifennu'r tystysgrifau. Mrs. Jane Morgan, Mrs Llinos Jones a Miss Marian Thomas oedd yn cadw'r sgôr, a diolch i bawb am eu gwaith arbennig. Diolch yn ogystal i holl Swyddogion y Sir a ffrindiau'r Mudiad am eu gwaith wrth y drws a thu cefn i'r llwyfan.

Gwestai'r Eisteddfod ar y Nos Wener 12fed Hydref oedd Mrs Ann Davies, Bremenda Uchaf, Llanarthne. Gwestai Nos Wener 19eg Hydref oedd Ken a Rita Davies, Arwelfa, Castellnewydd Emlyn. Gwestai Dydd Sadwrn 20fed Hydref oedd Miss Ann Davies, Llundain. Diolch iddynt oll am eu rhoddion hael iawn tuag at gyllid Ffederasiwn y Sir.

Yn fuddugol yn nghystadleuaeth y Stori ac yn ennill Cadair y Sir eleni oedd Miss Meinir Jones, C.Ff.I Llanfynydd. Roedd y gadair eleni yn rhoddedig gan Mrs Rhian Jones (Cadeirydd y Sir) a diolch i Mr Bedwyn Rees am wneud y gadair. Mr Gethin Thomas oedd yng ngofal Seremoni'r Cadeirio gyda Harry Evans, C.Ff.I Llanfynydd yn canu Cân y Cadeirio a Mr. Hefin Jones yn canu'r Corn Gwlad.

Miss Menna Williams, Llanfynydd, Miss Megan Jones, Capel Dewi, Mr Gareth Bayliss-James, Llannon a Mr Steffan Evans, Penybont fu yn cyfarch y buddugol. Miss Elin Rees oedd yn cyfeilio yn ystod y seremoni.

Clwb Ffermwyr Ieuainc Llanfynydd fu yn stiwardio trwy gydol y tair noson a diolch i Amaethwyr Caerfyrddin a Phumsaint cyf am eu cefnogaeth fel noddwyr unwaith yn rhagor.

Diolch i Mrs Louise Jones, Llysgenhades y Mudiad a'r Dirprwyon am eu gwaith wrth y siop trwy gydol yr Eisteddfod ac i C.Ff.I Llanfynydd am y lluniaeth i'r beirniaid.

**Noson Codi Arian Mudiad CFfI Sir Gâr**

Nos Fercher, yr 28ain o Dachwedd bydd Llysgenhades Mudiad CFfI Sir Gâr a'i dirprwyon yn cynnal noson CYRI A CHLONC yn y Sheesh Mahal yng Nghaerfyrddin. Bydd y Noson yn dechrau am7.30y. h, a chost y tocyn fydd 12 punt. (5 punt yn mynd i'r Mudiad a 7 punt am ddau gwrs). Mae'r tocynnau ar werth yn Swyddfa CFfI y Sir. Croeso i chi gysylltu ar 01267237693.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works, Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur — Yswiriant tŷ/cynnwys
Teithio — Fferm a busnes
Cyfrifoldeb — Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

# Llanwnnen

**Pwyllgor Lles – Gwibdaith yr Haf**

Ar ddydd Mercher braf o Hydref aeth trigolion y pentref am wibdaith ar fws G&M, Llambed i Sain Ffagan. Dechrau o Lanwnnen am 8.30 y bore, aros yn Cwmcerrig, Crosshands am de deg a thipyn o siopa, gyda chyfle i brynu torth o fara neu datws had – gobeithio y bydd Mrs Jones yn mwynhau tato newydd i ginio Nadolig. Yna ymlaen, â'r haul yn tywynnu a'r olygfa yn fendigedig a chyrraedd Sain Ffagan erbyn cinio. Roedd hi'n agoriad llygad gweld y gwahanol adeiladau ac yn enwedig Ysgol fach Maestir. Dechreuwyd ar y daith adref tua 5 o'r gloch ac aros am swper yng Ngwesty'r Boar's Head, Caerfyrddin lle cawsom swper blasus a phawb yn mwynhau.

Ar y bws cafwyd raffl a'r gwobrau yn rhoddedig gan: Haydn a Mary Richards, Lowtre; Gwilym a Gwen Davies, Llys Aeron; Avril Jones, Troed y Bryn; Ann Hughes, Cwmhendryd; Flo Williams, Brynamlwg; Magw Hughes, Pantdderwen; Dan ac Irene Jones, Llambed a Jean Jones, Alltyblaca. Yr enillwyr oedd Jean Jones, Alltyblaca; Margaret Thomas, Llanwnnen; Dilwyn Davies, Llanwnnen; John Thomas, Llanwnnen; Lilian Fowden, Llambed; Dora Hughes, Capel-y-Groes; Mrs Lewis, Llambed a Gwilym Davies, Llanwnnen.

Roedd Dafydd Williams, Dolaugwyrddion wedi cynnig gwobr o £5 i'r person a fyddai'n dyfalu milltiroedd y wibdaith – yr enillydd oedd Irene Jones, Llambed a oedd wedi dyfalu'n gywir, sef 153 milltir – campus!

Diolchodd y Cadeirydd, Haydn Richards i Gwen Davies ac Ann Hughes am drefnu'r diwrnod. Roedd pawb wedi mwynhau diwrnod pleserus a chyrhaeddwyd yn ôl yn Llanwnnen am 9 o'r gloch.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwys â theulu'r diweddar Mrs Lilian Jones, Garej Pentrebach a theulu'r diweddar Mrs Mari Evans, 1 Bro Cadarn yn eu colled.

**Diolch**

Dymuna teulu y diweddar Mari Evans, 1 Bro Cadarn ddiolch yn fawr am y caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn.

**Dathlu 'da Dylan**

Ddydd Sul 30 Medi cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel y Groes o dan y teitl Dathlu 'Da Dylan.' Pwrpas y gwasanaeth oedd nodi llwyddiant y Prifardd Dylan Iorwerth yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg eleni. Cymerwyd rhan gan ddwy o ferched talentog y capel, sef Megan a Nia. Yn ogystal, gwnaeth dau barti gymryd rhan a oedd hefyd wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, sef Côr Adrodd Sarn Helen a Chôr y Wiber. Mae gan rai o aelodau'r ddau barti gysylltiadau agos â'r capel.



Nia, Dewi Pws a Megan - tri o'r rhai a gymerodd rhan yn y gwasanaeth.

Wedi i Dylan egluro ychydig ar y cerddi fe gafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan y Prifardd Idris Reynolds wrth iddo eu dadansoddi ymhellach.

Canwyd cân arbennig gan Dewi Pws, sef 'Ysbrydion'. Gan gofio cefndir cerddi buddugol Dylan eleni, sef marwolaeth ei dad, ynghyd â cherddi'r Goron yn Eisteddfod Llanelli yn y flwyddyn 2000, roedd y gân arbennig hon yn addas iawn ac yn un sy'n haeddu cael ei galw'n emyn. Yn bresennol hefyd roedd Sian Gwenllian o'r Felinheli, sef gweddw Dafydd a ysgogodd Dylan i ysgrifennu cerddi'r Goron yn Llanelli.

Cafwyd cyfraniad cyfoethog arall gan y Prifardd Mererid Hopwood. Yn ogystal â bod yn un o'r tri beirniad yng nghystadleuaeth y Gadair eleni, mae Mererid a Dylan yn ddau o blith y pedwar person sydd wedi ennill y dair brif wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sef y Goron, y Fedal Ryddiaith a'r Gadair. O'r pedwar, dim ond Mererid a Dylan sydd bellach yn fyw.

Roedd 30 Medi hefyd yn Ddiwrnod Waldo a chafwyd neges amserol gan Mererid Hopwood i'n hatgoffa am gyfraniad mawr Waldo at heddwch a chymod. Daeth hi â'r Llyfr Gwyn gyda hi a bu cyfle ar ddiwedd yr oedfa i bobl lofnodi'r llyfr arbennig yma i ddatgan yn glir eu dymuniad am heddwch yn ein byd.

Yn y gwasanaeth cafwyd darlleniadau amrywiol gan Cen Llwyd o waith Dylan.

Darparwyd lluniaeth ar ddiwedd yr oedfa gan aelodau Urdd y Benywod.

*Mererid - Cadair yn Ninbych 2001; Coron ym Meifod 2003; Medal Ryddiaith yng Nghaerdydd 2008.

*Dylan – Coron yn Llanelli 2000; Medal Ryddiaith yn Eryri a'r Cyffiniau yn 2005; Cadair ym Mro Morgannwg 2012

* Idris – Cadair yn Llanrwst 1989; Cadair yn Aberystwyth 1992.



Mae plant y Cylch Ti a Fi wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn creu gwaith gyda Mrs Mary Jones. Mae Mary wedi bod yn dod i'r ysgol bob prynhawn dydd Mercher ac mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn lliwio, torri a gludo. Cafodd y plant hwyl fawr yn y sesiynau hyn. Diolch yn fawr Miss Mary.

**Pen-blwydd Hapus**

Llongyfarchiadau i John Jones, Cornicyll, ar ei ben-blwydd yn 90 oed ddechrau mis Tachwedd.

Gobeithio y cewch iechyd eto wrth fynd ymlaen at y cant!

**Ysgol Llanwnnen**

Croeso mawr i Jack Herbert ac i Lucas Smith sydd wedi dechrau yn y dosbarth derbyn ers mis Medi. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn dda i fywyd yr ysgol ac yn mwynhau eu hunain yn fawr.

Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn brysur dros yr haf yn cystadlu mewn amryw o sioeau gyda gwaith celf neu wrth ddangos anifeiliaid o bob math. Llongyfarchiadau i bawb a fuodd yn llwyddiannus yn ystod sioeau'r haf a braf oedd gweld eich lluniau yn y wasg.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr Ysgol a Mrs Llwyd ar eu llwyddiant wrth ennill y faner werdd yn gydnabyddiaeth am eu gwaith caled yn sicrhau bod yr ysgol yn un eco-gyfeillgar. Roedd rhaid i'r disgyblion wneud cyflwyniad o flaen panel o bobl a thywys pobl o amgylch yr ysgol yn dangos iddyn nhw yr amrywiaeth o bethau mae'r ysgol wedi eu gwneud. Da iawn chi, blant. Yn sgil hyn mae'r ysgol wedi cael ei gwahodd i gynnal noson agored i weddill ysgolion Ceredigion.

Ddechrau mis Medi bu aelodau'r dosbarth top yn cymryd rhan mewn digwyddiad yn y pentref i ddathlu llwyddiant Dylan Iorwerth yn ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'r plant yn agor y noson trwy ganu dwy gân. Roedd Mr Ebbsworth wedi cyfansoddi geiriau i un o'r caneuon ac roedd y plant wedi mwynhau mas draw cael perfformio o flaen cynulleidfa. Diolch i Susan a Siriol am drefnu bwyd i'r plant ar ôl y perfformiad.

Aeth yr ysgol i gyd am dro i lawr i Neuadd yr Eglwys er mwyn cefnogi Bore Coffi Macmillan. Roedd Sali, gynt o'r siop, wedi trefnu'r digwyddiad a braf oedd cael cefnogi. Roedd y neuadd yn orlawn ac ar ddiwedd y dydd roedd y digwyddiad wedi codi £424. Roedd y plant wedi mwynhau eu sgwash a'u cacennau.

Bu dau o ddisgyblion yr ysgol sef Meredydd Davies a Guto Ebbsworth yn Aberystwyth yn ddiweddar yn ffilmio 'Ben Dant' sef rhaglen cwis i blant a fydd yn cael ei dangos yn y flwyddyn newydd. Cafwyd amser arbennig o dda a diwrnod y bydd y ddau yn ei gofio am amser hir. Bu Carwyn Rosser a Steffan Holmes yn siarad yn arbennig o dda am rasio beiciau modur ar y rhaglen Ralio+ yn ddiweddar, sef camp y mae'r ddau yn cael cryn lwyddiant arni.

Llongyfarchiadau i't tîm Pêl Droed 5 bob ochr sef, Idris Lloyd, Lewis Jarvis Blower, Lauren Morgan, Sasha Evans, Heledd Jenkins a Carwyn Rosser ar eu llwyddiant yn ennill cystadleuaeth cylch yr Urdd. Enillodd y tîm bob un o'i gemau ac fe ânt ymlaen yn awr i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf. Da iawn chi.

Bu'r dosbarth hynaf ar drip yn ddiweddar i Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre yn rhan o'u cwrs Hanes gyda Mrs Mills. Cafwyd cyfle i fynd o amgylch yr amgueddfa a gweld y peiriannau yn gweithio; cael bod yn rhan o weithdy creu ffelt a mynd ar daith o amgylch y pentref i weld datblygiadau yn ystod oes aur y diwydiant gwlân. Cafwyd amser da gyda'r disgyblion yn dysgu llawer. Diolch yn fawr, Mrs Mills am drefnu.

Bu disgyblion y dosbarth babanod ar daith i weld yr orsaf dân yn Llambed ac yna ymlaen i Gwili Jones i weld y peiriannau yno. Roedd yn gyfle da i ddysgu mwy am bethau sydd yn ein diddori.

**Pen-blwydd Arbennig**

Yn ystod diwedd mis Hydref dathlodd Mrs Glenys Jones, Penbompren ben-blwydd arbennig. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

# Drefach a Llanwenog




**Cylch Meithrin Drefach**

Yn ddiweddar, mae Cylch Meithrin Drefach, Llanybydder wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gael arian loteri dan y cynllun 'Arian i Bawb.' Bydd y £5,000 yn mynd at adnoddau newydd a bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau bod y disgyblion yn derbyn yr addysg orau a mynediad at gwricwlwm llawn.

Dywedodd Pete Ebbsworth, Cadeirydd y Cylch, "Mae hyn yn newyddion arbennig. Bydd yr arian yma yn gymorth i wella adnoddau'r cylch ac yn help i ddarparu profiadau ehangach i'r plant. Mae derbyn yr arian yn glod i waith di-flino a safonol y staff sydd yn dysgu yn y Cylch.

"Mae'r Cylch hefyd yn gwneud gwaith arloesol nid yn unig trwy gynnal diwrnodau yn ei safle parhaol ond hefyd trwy weithredu system bontio bob dydd Iau wrth gynnal y cylch yn Ysgol Llanwnnen neu Ysgol Cwrtnewydd. Mae hynny wrth gwrs yn cyfrannu at y broses o helpu'r plant i ymgartrefu'n well pan maen nhw'n barod i fynd i'r ysgol yn llawn amser. Mae rhieni plant y Cylch wedi sôn wrtha i pa mor hapus maen nhw gyda'r safonau addysg a'r gofal parhaol mae eu plant yn eu derbyn yn y Cylch a rhaid diolch i'r staff gweithgar dros ben am eu gwaith o ddydd i ddydd."

Os oes gennych ddiddordeb i'ch plentyn fynychu'r cylch, cysylltwch â Delyth Jones, 07854 091043.

**Eglwys Santes Gwenog.**

Prynhawn Mercher y 10fed o Hydref bu plant ysgol Llanwenog yn cynnal eu Cwrdd Diolchgarwch yn yr Eglwys. Cafwyd eitemau ar lafar a chân o'r safon uchaf, a sgets gan y plant a roddodd wên ar wynebau'r gynulleidfa wrth i Jac ac Osian bortreadu dau 'fasnachwr henebion' yn feistrolgar iawn. Diolch i'r plant am brynhawn pleserus iawn wrth iddynt gyfleu eu neges o ddiolchgarwch. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Ficer, y Parch. Suzy Bale, a derbyniodd ymateb brwdfrydig gan y plant. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am eu gwaith, ond mae'n gwerthfawrogiad yn fawr i'r athrawon am eu hyfforddiant trylwyr.

Edrychwn ymlaen at groesawu Nicola 'Cascade' Llambed ar y 7fed o Dachwedd am 3.30, i'n hyfforddi sut i wneud 'Torch Nadolig'.

Cofiwch am wasanaeth 'Naw Llith a Charol' prynhawn Sul, Rhagfyr 16eg. Bydd lluniaeth tymhorol yn dilyn. Cofiwn am bawb sydd yn anhwylus a dymunwn adferiad llwyr iddynt. Cofiwn yn arbennig am dad ein Ficer sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Mae'r Ficer gyda'i theulu yng Nghaerfaddon ac yn ei habsenoldeb bydd y Parch. Bill Fillery a'r Canon Aled Williams yn cyflenwi.

Yn ystod y mis daearwyd gweddillion Miss Mali Evans, Tŷ-cam gynt, ym medd ei rhieni ym mynwent yr Eglwys. Wedi i Mali Evans ymddeol o'r byd nyrsio bu'n byw yng Nghaerfyrddin cyn treulio ei blynyddoedd olaf yng Ngartref Henoed Castell Picton, Caerfyrddin. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Clwb 100 yr Eglwys. 1. Mary Thomas, Ffosffald. 2.Chris Jones, Cwmsychbant. 3.Margaret Griffiths, Crugywhil.

**Y Gymdeithas Hŷn**

Dechreuodd tymor y Gaeaf wrth i gyfarfod mis Hydref gael ei gynnal yn festri Capel Brynteg ar y 10fed o'r mis. Croesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd, a derbyniwyd ymddiheuriadau gan chwech o'r aelodau. Dymunwyd gwellhad buan i Jean Evans, Llwynygog, ac i bawb sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar, a chofiwyd am gyn-aelod sydd wedi symud o Gwrtnewydd i fyw at ei theulu, sef Rachel Davies, Afonog. Rhoddwyd cyfarchion pen-blwydd i Mair Williams, ac i Jean Evans yn ei habsenoldeb.

Aed ymlaen wedyn i gynnal y Cyfarfod Blynyddol. Darllenwyd cofnodion 2011 a chynigiwyd eu bod yn gywir. Derbyniwyd adroddiad ariannol manwl gan Brenda Jones, y Trysorydd, a diolchwyd yn gynnes iddi am ei gwaith. Darllenwyd rhestr yr aelodau oedd wedi derbyn cardiau cydymdeimlad yn ystod y flwyddyn, felly hefyd cardiau yn dymuno gwellhad i'r rhai a fu yn yr ysbyty am gyfnod. Diolch i Nanna Jones am eu danfon.

Ail-etholwyd Swyddogion y llynedd yn unfrydol. Bydd y tâl aelodaeth yn aros fel y llynedd yn £5, ond bydd pris tripiau'r haf yn codi i £11 i'r aelodau a £12 i ffrindiau eraill. Cafwyd syniadau am siaradwyr y tymor a threfnwyd lle i gwrdd bob mis. Penderfynwyd cael ein cinio Nadolig yng Nghefn-hafod ddydd Mercher, Rhagfyr 12fed.

Diolchwyd gan y Cadeirydd i wragedd Brynteg am drefnu'r lluniaeth ysgafn ac i swyddogion ac aelodau'r Capel am gael dod ynghyd yno. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Tachwedd 14eg, yn Nghapel Bethel Drefach, a bydd Mrs Mary Davies, Awel Teifi yn ein diddori. Croeso cynnes i'n haelodau ac i ffrindiau newydd ymuno â ni.

**Capeli Bethel a Brynteg**

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch y ddau gapel yn ystod mis Hydref; Bethel ar yr 2il o'r mis, a'r pregethwr gwadd oedd y Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, gyda'r Parch. Ddr. Rheinallt Davies yn llywyddu. Mrs Gillian Jones, Meysydd oedd yr organyddes, a diolch iddi hi ac i Emyr am drefnu cwpanaid o de i bawb wedi'r oedfa.

Gohiriwyd cyfarfod Brynteg tan y trydydd nos Fawrth yn y mis ar gais y cennad, sef y Parchedig Towyn Jones, Caerfyrddin. Croesawyd pawb eto gan y gweinidog, y Parch. Rheinallt Davies, ac Yvonne Davies oedd yr organyddes.

**Ysgol Llanwenog**

Bu mis Hydref yn fis prysur yn Ysgol Llanwenog. Bu'r plant yn cynnal Gwasanaeth Diolchgarwch i'r gymuned yn Eglwys Santes Gwenog. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol yn cynnwys darlleniadau , canu, actio, a chyflwyniad Rap. Derbyniodd y Parchedig Suzy Bale roddion oddi wrth y plant ac fe'u bendithiwyd wrth yr allor. Mwynhaodd torf dda iawn y gwasanaeth ac fe berfformiodd y plant yn arbennig o dda.

Yn dilyn y gwasanaeth bu rhai aelodau'r cyngor ysgol yn ymweld â chartref hen bobl Maes y Felin i ddosbarthu eu rhoddion ac i gael sgwrs gyda'r trigolion.

Trefnodd Mrs Sioned Mills daith addysgiadol hynod lwyddiannus ar gyfer y dair ysgol sef Llanwnnen, Cwrtnewydd a Llanwenog. Aeth plant Cyfnod Allweddol dau yn fintai gref i'r Amgueddfa Wlân yn Drefach Felindre. Cawsant y profiad o weld sut roedd yr hen garthenni yn cael eu gwneud a chael y profiad o weithio'n greadigol trwy ddull 'ffeltio'. Roedd yn ddiwrnod bendigedig.

Cynhaliwyd Ras Hwyl Llanwenog ar ddydd Sul Hydref y 7fed. Roedd hi'n fore hyfryd o Hydref a daeth nifer dda o blant at ei gilydd i gystadlu cyn y brif ras i oedolion. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus a chodwyd dros £500 at goffrau'r ysgol. Diolch eto i aelodau diwyd y Gymdeithas Rhieni Athrawon am drefnu'r achlysur yma.



Heledd Jenkins yn ennill dros 9 oed.

Penodwyd aelodau a swyddogion newydd ar gyfer Cyngor yr Ysgol. Y cadeirydd newydd yw Osian Davies, y trysorydd yw Jac Evans, a Hafwen Davies yw'r ysgrifenyddes amryddawn. Daeth Mrs Nia Evans o'r Sir i'r ysgol i drafod gwaith y Cyngor Ysgol gyda'r plant ac fe dderbyniodd yr ysgol dystysgrif lefel arian am eu gwaith.

Codwyd £200 at elusen gancr Macmillan trwy gynnal Prynhawn Coffi yn yr Ysgol. Bu plant blwyddyn chwech yn gweini ac fe ddaeth torf dda i gefnogi'r achos teilwng yma.

Bu aelodau'r Urdd yn cwrdd a buont yn mwynhau sesiynau celf a sesiwn bingo dan ofal Mrs Eirlys Jones. Diolch yn fawr i Wyn Morgan am ddod i'r ysgol i gymryd sesiwn hyfforddi pêl droed yn rhan o weithgareddau'r Clwb Cadw'n heini. Diolch yn fawr iddo.

Bydd yr ysgol yn croesawu ymwelwyr o wledydd Sbaen ac Iwerddon cyn hanner tymor. Bydd hyn yn rhan o brosiect 'Comenius' er mwyn hybu cysylltiadau rhyngwladol.

Enillwyr Clwb Cant: Mis Medi: 1af – John Davies, Bwlchmawr; 2ail – Hari Rivers; 3ydd - Jamie Jones. Mis Tachwedd: 1af - Gwenda Davies , Bwlchmawr; 2ail - Malcom Gregson; 3ydd - Denise Rickard.

**Capel Bethel**

Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch capel Bethel, Drefach eleni ar nos Fawrth Hydref yr ail a daeth tyrfa dda ynghyd. Gweinidog y capel, sef y Parchedig Ddr. Rheinallt Davies, oedd yn arwain y rhannau agoriadol ac ef hefyd a estynnodd groeso arbennig i'r gweinidog gwadd i'r oedfa arbennig hon. Roedd hi'n fraint gwrando ar y Parchedig John Gwilym Jones yn rhoi disgrifiad llawn o'r adnodau sy'n cyfeirio at y pum torth a'r ddau bysgodyn ac

# Drefach

arwyddocâd y geiriau i'r Cristion. Yr organyddes oedd Mrs Gillian Jones, Meysydd, gwnaed y cyhoeddiadau gan Mrs Dilwen George, Awelfryn a Mrs Jane Jones, Pwllybilwg oedd yn gyfrifol am addurno'r capel â blodau, ffrwythau a llysiau. Gwahoddwyd y gynulleidfa i'r festri i fwynhau paned o de a chyfle i gymdeithasu a sgwrsio cyn mynd adref.

Testun diolchgarwch hefyd oedd neges y gweinidog yn ystod oedfa'r Sul blaenorol. Diolchodd yn gynnes i'r aelodau a'r gwirfoddolwyr a aeth ati i beintio wal flaen a drysau'r capel gan weddnewid golwg allanol yr adeilad.

**Ŵyr newydd**

Llongyfarchiadau i Huw a Nans Davies, Bryndolau ar enedigaeth ei ŵyr cyntaf yn Llundain - Hedd Gwesyn, mab bach i'w merch Dwynwen a Tim yn Llundain.

**30 oed**

Dathlodd Geraint Davies, Dolgader ei ben-blwydd yn 30 oed yn ystod mis Hydref.

**C.Ff.I Llanwenog.**

Bu'r clwb yn brysur iawn yn y mis diwethaf drwy gystadlu yn y chwaraeon dan do a'r diwrnod Maes. Ar Hydref y 1af, cawsom gyflwyniad taith Weriniaeth Tsiec gan Mererid Davies ac Einir Ryder. Roedd y ddwy yn amlwg wedi mwynhau'r profiad a dysgodd y clwb llawer am y wlad.

Noson gyda'r mechanic Dorian Rees, Tanrhos ar yr 8fed o Hydref. Noson hwylus arall gan ddysgu sut i newid olwyn a sut i edrych ar ôl y car yn gyffredinol- handi iawn!

Noson moctêls cawsom ar y 15fed o Hydref. Creu cocktails di-alcohol - rhai lliwgar iawn! Noson llawn hwyl a sbri lle'r oedd pawb yn blasu moctêls ei gilydd.

Cafwyd Cwrdd Diolch Garwch y clwb ar y 22ain o Hydref yng Nghapel Bethel, Drefach. Y Capel bron yn llawn. Diolch am wneud ymdrech i gefnogi'r clwb unwaith eto. Daeth pob aelod o'r clwb â ffrwythau a llysiau, ac fe gyflwynwyd y rhain i gartref henoed Maesyfelin. Yn ystod y bythefnos nesaf ymarfer gogyfer yr Eisteddfod byddwn, bydd i'w chynnal ar Dachwedd y 1af ar 3ydd.

Dyma ganlyniadau'r chwaraeon dan do: Dartiau bechgyn: Gethin Hatcher- 2ail. Drafftiau: Rhys Davies- 1af. Dartiau dwbl: 3ydd. Dyma ganlyniadau'r diwrnod maes: Barnu stoc: Dan 18- 1af Daniel Morgans; Dan 14- Rhys Davies. Ar ddiwedd y dydd fe ddaeth y clwb yn gyfartal 9fed.

**101 oed**

Dathlodd Hannah Jones gynt o Fferm Cwmnant ei phen-blwydd yn 101 oed ddechrau mis Hydref.

# Llanfair Clydogau

**Cyrddau Diolchgarwch**

Nid yn aml mae cynulleidfa yn cael dwy bregeth mewn un gwasanaeth ond dyna beth ddigwyddodd yng Nghapel Mair ar nos Iau, Hydref 11eg eleni. Roedd pawb wedi dod ynghyd drwy'r gwynt a'r glaw ond doedd dim sôn am y gweinidog gwadd, sef y Parchedig Richard Lewis o Bow Street. Yna, daeth y neges ei fod wedi cael ei rwystro mewn llif yn ardal Llanbadarn ac felly yn methu â chyrraedd mewn pryd. Penderfynodd Ian Evans, un o'r diaconiaid, ddechrau'r gwasanaeth trwy ganu rhai o'r emynau ar y daflen. Yna, pan gyrhaeddodd Gerwyn Morgan, Trebannau gynt, buodd mor garedig â chymryd at y rhannau arweiniol gan obeithio y byddai'r gweinidog yn cyrraedd unrhyw funud. Yn anffodus, ni ddigwyddodd hynny ond buom yn lwcus iawn fod Gerwyn wedi digwydd gadael ei 'lyfr bach pregethau' yn y car, ac allan ag ef i'w nol. Cawsom bregeth ddiddorol a phwrpasol ar neges y cynhaeaf. Fel yr oedd Gerwyn yn cloi ei bregeth, cyrhaeddodd y Parch. RichardLewis. Ar ôl canu'r emyn olaf daeth ymlaen i'r sêt fawr i ymddiheuro a rhoi braslun o'r bregeth roedd wedi ei pharatoi i ni. Mae yn gobeithio dod nol y flwyddyn nesaf a chael gwell tywydd, heb lifogydd i'w rwystro. Diolch i'r organyddes, Aerwen Griffiths, am gyfeilio gyda chanu arbennig o dda gan y gynulleidfa a diolch i Iris am addurno'r capel. Bydd gwasanaeth y cynhaeaf eleni yn siŵr o aros yn hir yn y cof.

Nos Iau, Hydref 18fed, dydd Sant Luc, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Santes Fair dan arweiniad y Parchedig Dafydd Aeron gydag Elizabeth Arnold Davies yn cyfrannu. Traddodwyd pregeth dymhorol a phersonol gan y Parchedig Bill Fillery, yn sôn am ei gysylltiadau â Sant Luc yn ystod ei yrfa a hithau'n ddiwrnod y sant. Diolch i Paula Barker am gyfeilio ac i Gwyneth a Paula am addurno'r eglwys gyda blodau, ffrwythau a llysiau tymhorol.



Yr ail flwyddyn yn olynol cawsom noson arbennig o fiwsig a dawnsio gyda'r band o Langrannog, y Fat Spanners. Roedd y neuadd yn orlawn, gyda'r llawr yn llawn dawnswyr trwy gydol y nos. Trefnwyd y noson gan Lesley Stevens. Gobeithio y byddant nol eto'n fuan.

# Llangybi a Betws

**Hamdden**

Ar Hydref 5ed croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y tymor newydd gan y Llywydd Janet Farrow. Treuliwyd orig ddiddorol yng nghwmni y Bon. Arwel Jones. Bu yn sôn am dri lle yn ei ardal enedigol sef Pennant a oedd wedi gadael argraff arno sef Waun Llaeth, Frongoy a Perllan Piter. Cawsom hanesion hanesyddol a phersonol yn llawn hiwmor ganddo. Diolchwyd iddo am brynhawn diddan ac am hanesion difyr gan Sally Davies. I ddiweddu'r cyfarfod cawsom baned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Joan James a Margaret Roberts.

Enillwyd y Raffl gan Dilys Godfrey, Mair Spate, Joan Jones, Sally Davies, Rita James, Ceinwen Jones, Alan Jones, Margaret Roberts, Barry Williams a Glenys Lloyd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 9fed am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi pryd y disgwylir y Bon. Lyn Richards i areithio ar Feddygon Myddfai. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Cydymdeimlo**

Syfrdanwyd ardal eang pan glywyd y newyddion trist am ddamwain ofnadwy Mr. Mervyn Lewis, Tŷ Gwyn a ddigwyddodd yn Llangeitho. Estynnir cydymdeimlad y fro â'r holl gysylltiadau teuluol.

**Merched y Wawr Y Dderi**

Ar Hydref 17eg yn Ysgol Y Dderi croesawyd pawb, aelodau ac ymwelwyr, yn gynnes iawn gan y llywydd Gwyneth Jones a braf oedd gweld cynifer wedi ymgynnull ar gyfer y noson agored yma. Treuliwyd orig ddedwydd iawn yng nghwmni y Bon. Ifan Gruffydd – un sydd yn adnabyddus iawn yn yr ardaloedd cyfagos ac yn genedlaethol. Bu yn sôn am ei fagwraeth mewn ardal fynyddig ar gyffiniau Tregaron ac am ei brofiadau ym myd y cyfryngau ac ym maes adloniant lleol gan gynnwys ei amser fel aelod o fudiad y Ffermwyr Ifanc. Talwyd pleidlais o ddiolch gwresog iddo gan Lettie Vaughan, gan ddiolch am noson bleserus, yn llawn hiwmor a difrifoldeb. Roedd yn noson a gofir am hydoedd.

Fe fydd y gangen yn cystadlu yn y Cwis Hwyl yn Tyglyn Aeron. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis ac fe'u henillwyd gan Odwyn Davies ac Allan Jones. I ddiweddu'r noson cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Mary Jones a Lettie Vaughan. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 21ain pryd y disgwylir Meinir Green i arddangos y grefft o wneud cardiau. Croeso cynnes i bawb.

**Ysgol Y Dderi**

Cafodd rhai o blant Blynyddoedd 5 a 6 gyfle i fwynhau pedwar diwrnod prysur yng Nghanolfan Awyr Agored Pentywyn yn ddiweddar. Gwnaeth pob un ohonynt yn fawr o'r profiadau - dringo, syrffio, saethyddiaeth, cwrs rhaffau uchel a llawer mwy – roedd rhywbeth at ddant pawb.

Yn rhan o'u gwaith thema yn yr hanner tymor hwn, aeth Blwyddyn 6 ar daith addysgiadol i Lyn y Fan Fach ac i'r Gerddi Botaneg. Cafodd pob un ohonynt ddiwrnod i'w gofio.

I ddathlu Diwrnod T.Llew Jones ar yr 11eg o Hydref, aeth plant a staff Blynyddoedd 3 a 4 i Bentre' Bach i ysgol y môr-ladron. Cafwyd bore o weithgareddau hwyliog iawn yn dysgu, ac yn actio fel môr-ladron dewr!

Lawr i Langrannog aeth Blwyddyn 3, 4 a 5 un bore Gwener, i hwyl a sbri Jambori yr Urdd - cyfle i fwynhau yr hen ffefrynnau ac i ddysgu ambell i gân newydd hefyd.

Nos Wener, y 19eg o Hydref, aeth deuddeg o ferched i gynrychioli'r ysgol ac i gymryd rhan mewn cyngerdd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Noson oedd hon i gyhoeddi Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur 2013. Yn ogystal â pherfformio fel parti canu eu hunain, cafodd y plant gyfle i fod yn rhan o gôr unedig nifer o ysgolion cynradd a disgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron. Roedd hwn yn brofiad arbennig i'r plant ac roedd y noson yn hyfryd.

I orffen, hoffwn longyfarch Miss Caryl Davies a gwblhaodd Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar, er mwyn codi arian at elusen y British Heart Foundation, ac hefyd dymunwn yn dda i Miss Gwen Davies sydd newydd ddechrau ei chyfnod mamolaeth. Edrychwn ymlaen at glywed newyddion cyffrous ganddi hi cyn hir!

# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Tref Llambed**

Y Maer: Kistiah Ramaya, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams, Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Medi 2012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Andrew Carter.

Bydd y gwasanaeth o Ddesg Flaen Swyddfa'r Heddlu, Llambed yn dod i ben ar 30 Medi 2012. Bydd gwasanaeth symudol ar gael ddwywaith yr wythnos bellach ar y Cwmins.

Mae'r Heddlu a'r Cyngor Sir wedi'u hysbysu am y car wrth y fynedfa i Lôn Picton.

Bydd cyfle i bleidleisio ar 15 Tachwedd 2012 i ethol Comisiynydd yr Heddlu. Rhaid cofrestru erbyn 31 Hydref. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar www.electoralcommission.org.uk/participation-resources

Balchder Pentrefi - Mae'r gwaith papur wedi'i gwblhau.

Cyfarfod gyda'r Cyngor Sir am Drafnidiaeth - Nodwyd bod angen estyn y llinellau melyn ar hyd Stryd y Farchnad. Byddai croesfan yn ddefnyddiol ger y Co-op. Gellid ystyried darparu cilfan yn Stryd Newydd a llinell felen ar Res Harford.

Cadwyn y Maer - Nodwyd bod angen trwsio'r gadwyn unwaith eto.

Masnach Deg Cymru - Mae'r corff hwn yn cynnal arolwg er mwyn gweld a oes cyfle i estyn Masnach Deg yn y gymuned. Bydd Grŵp Twristaidd y Cyngor yn llunio ymateb.

Y Comisiwn Ffiniau - Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar wefan y Comisiwn: www.bcomm-wales.gov.uk

Lansio Llyfr Emynau - Lansir y llyfr sydd wedi ei gyflwyno i dref Llanbed yng nghapel Noddfa 18 Hydref

Cadw - Cadw yw'r corff sy'n gofalu am dreftadaeth Cymru a bwriedir cynnal nifer o gyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd. Ceir rhagor o wybodaeth ar cadwheritagebill@wales.gsi.gov.uk

Penderfynwyd cefnogi Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion; Marie Curie; Noson Tân Gwyllt y Ford Gron; Hafan Cymru.

# O geiniog i geiniog y try'r arian yn bunt



gan Beca Russell

**Gwryw neu fenyw? - y gwahaniaeth i'ch poced.**

O'r 21ain o Ragfyr 2012 bydd dynion a menywod yn cael eu trin yr un peth wrth ystyried cost yswiriant a blwydd-daliadau ymddeol. Dyma'r 'EU Gender Directive'.

**Beth yw'r 'EU Gender Directive'?**

Llynedd, fe wnaeth y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd ddyfarnu fod seilio prisiau yn ôl rhyw'r unigolyn yn mynd yn erbyn egwyddorion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfartaledd rhyw. Oherwydd hynny, o'r 21ain o Ragfyr eleni, mi fydd yn erbyn y gyfraith i gynnig prisiau gwahanol i ddynion a menywod ar sail rhyw yr unigolyn.

**Beth mae hyn yn ei olygu?**

Mi fydd y newid yma yn effeithio ar gostau yswiriant car, blwydd-daliadau ymddeol, yswiriant bywyd, yswiriant salwch difrifol ac yswiriant incwm personol.

Yswiriant car - Gellir disgwyl i'r newid mwyaf effeithio cost yswiriant i fenywod ifanc gyda chynnydd o tua 25%, tra bydd dynion ifanc o bosib yn gweld gostyngiad o tua 10%.

Yswiriant Bywyd - Ers amser hir mae cost yswiriant bywyd yn gyffredinol wedi bod yn gostwng . Mae menywod wedi gweld costau is na dynion gan eu bod yn ystadegol yn byw yn hirach. Ond mi fydd hyn i gyd yn newid o dan y rheolau newydd yma wrth i ni weld cynnydd o tua 15% yng nghost yswiriant bywyd i fenywod.


Yswiriant Incwm Personol – Yn draddodiadol, mae dynion yn gyffredinol wedi talu llai na menywod am yswiriant incwm personol gan eu bod yn ystadegol yn llai tebygol o fod bant o'r gwaith oherwydd salwch. Mi fydd y newid yma yn golygu bod prisiau yswiriant incwm personol i ddynion yn cynyddu o hyd at 25%.

Blwydd-daliadau Ymddeol – Ar hyn o bryd mae'r cwmnïau yswiriant yn cymryd yn ganiatаol bod dynion ar y cyfan â disgwyliad oes (life expectancy) byrrach na menywod. Oherwydd hynny mae dynion yn gyffredinol yn cael cynnig blwydd-daliadau fwy na menywod. Yn y dyfodol, bydd rhaid i'r cwmnïau gynnig cyfraddau tebyg (unisex rates) a bydd hynny'n golygu bod blwydd-daliadau dynion yn cwympo a rhai menywod yn cynyddu.

Yn sicr, mi fydd y newidiadau yma yn cael effaith arnom ni i gyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Felly os oeddech yn ystyried unrhyw fath o yswiriant bywyd neu iechyd, neu os ydych chi yn agosáu at oed ymddeol, neu wedi cyrraedd yr oed hwnnw, mae'n werth cymryd y cam cyntaf cyn yr 21ain o Ragfyr.

# O'r Cynulliad

gan Elin Jones



Yn ystod y mis rwy wedi codi'r buddsoddiad cyhoeddus i wella cyflymder band llydan yng Ngheredigion. Enillodd BT y cytundeb i ddarparu band llydan cyflym ynghynt eleni, a'r disgwyl yw y bydd pob tŷ a busnes yn derbyn cysylltiad band llydan cyflym erbyn diwedd 2015. Rwy hefyd wedi pwysleisio wrth y Prif Weinidog yn y Siambr taw'r llefydd sydd â chysylltiad gwan ar hyn o bryd yw'r rhai a ddylai gael blaenoriaeth wrth i BT ddechrau ar y gwaith o uwchraddio'r isadeiledd perthnasol.

Rwy hefyd wedi mynychu digwyddiadau amrywiol. Ddechrau'r mis cefais y fraint o fod yn llywydd pencampwriaeth Aredig Cymru yn Fferm y Morfa, Llanon. Roedd yn hyfryd gweld cynifer o bobl wedi dod i gefnogi'r cystadlu ac roeddem yn lwcus iawn fod y tywydd o'n plaid!

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gorffen prosiect blwyddyn yn Llanerchaeron i godi pont newydd ar draws yr afon Aeron. Pwrpas y bont yw gwella mynediad ar gyfer pysgotwyr i'r afon, ac roeddwn yn falch cael y gwahoddiad i ddathlu agoriad y bont newydd yn swyddogol.

Cefais wahoddiad gan y Cyng. Peter Evans i gadeirio cyfarfod yn Llandysul i drafod y trafferthion parcio yn y pentref. Roedd yr aelod Cabinet dros drafnidiaeth, y Cyng. Alun Williams, hefyd yn bresennol ac ar ôl trafodaeth fuddiol, cytunodd nad yw'r trefniant parcio presennol yn cwrdd ag anghenion y preswylwyr lleol. Bydd y Cyngor Sir yn awr yn cydweithio gyda thrigolion Llandysul i ail-edrych ar y rhwystrau parcio ar hyd y brif stryd.

Yn olaf, fe wnaeth Fforwm 50+ Ystrad Fflur fy ngwahodd i gadeirio cyfarfod ym Mhontrhydfendigaid ychydig wythnosau yn ôl ynglŷn â'r cynllun Cylch Caron. Roedd hi'n dda gweld nifer o drigolion yr ardal yn bresennol i glywed mwy am y cynlluniau gan swyddogion y Bwrdd Iechyd.


Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref




Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisiau rhesymol a Diwrnod gostyngiad i'r henoed
**Ffoniwch: 07738 492613**
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn/Also at
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**CEGIN GWENOG**
Abernant, Llanwenog

**Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur**

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG
**Bwyty Tseinaidd a Chludfwyd**
13 Stryd y Bont, Llambed
**01570 422009**

Ar agor:
**12:00-14:30 a 17:00-23:00**
Cynigion arbennig bwffe ac amser cinio
Darllenwch ein bwydlen a'n cynigion arbennig ar Facebook

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford, Llambed**
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Llanbedr Pont Steffan



Mae Clwb Cerdd Llanbed yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 eleni. I ddechrau'r tymor, daeth y delynores enwog, Catrin Finch, yn ôl i ddiddanu'r gynulleidfa yn Neuadd Gelfyddydau y Drindod Dewi Sant lle cafodd ei hysbrydoli yn blentyn bach i gymryd at y delyn. Catrin gafodd yr anrhydedd o dorri'r gacen ddathlu gyda (o'r chwith) David Cockburn, Swyddog Cyhoeddusrwydd; Steven Rowlands, Trysorydd; Penny Newton, Ysgrifennydd; Bill Fillery, aelod o'r pwyllgor; Holly Cook, Trefnydd y Rhaglen a George Lilley, Is-lywydd anrhydeddus ac aelod gwreiddiol y gymdeithas.




Rhodd o £1945.00 i Uned Cemotherapi a Haematoleg Ysbyty Bronglais er cof am Hazel Davies, Frondolau, Pentrebach. Yn y llun mae ei phriod Twynog, ei merch Eleri, Mrs Eirian Gravell, Nyrs Arbenigol mewn Haematoleg a Dr. Elin Jones, Oncolegydd.

**Urdd y Benywod, Brondeifi**

Ar yr 11eg Hydref treuliodd aelodau Urdd y Benywod, Brondeifi noson ddymunol iawn yng nghwmni Joan Jones, Llanbedr Pont Steffan. Cipiodd Joan sylw'r gynulleidfa gyda'i harddangosfa o waith llaw godidog. Mae ei gwaith diweddaraf yn cynnwys brodwaith mewn tri dimensiwn a gwaith mewn aur. Tu ôl i bob darn o waith roedd ganddi stori ddifyr a hwylus i ddiddanu ei gwrandawyr. Er ei bod yn brysur ar hyd y blynyddoedd, ni chollodd Joan ei diddordeb mewn gwaith llaw. Ei swydd gyntaf oedd gweithio i gyfreithwyr yn Aberystwyth ar adeg pan oedd popeth yn yr iaith Saesneg a chyfaddefodd fod hynny'n sialens i Gymraes fel hi. Ar ôl iddi briodi, bu Joan yn brysur fel ffermwraig ond erbyn hyn mae hi a'i gŵr wedi ymddeol. Mae gwaith crefft Joan wedi ennill gwobrau mewn sawl eisteddfod. Mae hi wedi cynrychioli Ceredigion a Chymru gydag un o'i sampleri. Roedd gan Joan sawl gair o gyngor wrth iddi annog ei gwrandawyr i ymarfer gwaith llaw ac i fwynhau'r broses. Yn ei geiriau o ddiolch, defnyddiodd Mary Jones y gair "syfrdanol" i ddisgrifio safon ac amrywiaeth crefftwaith Joan Jones. Roedd y gynulleidfa oll o'r un farn.

Cyfarfod nesaf yr Urdd: Tachwedd 8fed, 7:30yh. Canon Elinor Davies yn sôn am ei gwaith. Croeso cynnes i bawb.

**Adran yr Urdd**

Daeth rhyw bedwar deg wyth o aelodau newydd ynghyd i'r cyfarfodydd cychwynnol. Diolch i Anthea am drefnu Bingo gogyfer â'r cyfarfod cyntaf ac i Mr Roland Griffiths am ganiatáu i ni fynd draw i'r bloc Technoleg yn Ysgol Bro Pedr i greu bathodynnau yn ystod yr ail sesiwn. Cafodd pawb y cyfle i gynllunio bathodyn a chreu un ar y peiriant arbennig i fynd adref gyda nhw. Yn ystod ein cyfarfodydd nesaf byddwn yn cael noson o ddrama, yn paratoi at y Carnifalwn ac yn coginio a chael parti. Diolch i Rhian Jones am ei gwaith diflino dros y blynyddoedd fel un o'n harweinyddion a chroeso i Amanda Jones sydd wedi ymuno ag Anthea, Nicola a Llinos fel arweinydd y tymor yma.

**Cylch Cinio**

Ar ddechrau tymor newydd cyfarfu'r Cylch ar Hydref 4ydd yng Ngwesty

Glynhebog. Y Llywydd yw'r Bnr. Dan Griffiths. Yn ei gyflwyniad croesawodd yr aelodau a'r gwestai yn gynnes a chydymdeimlodd â Twynog Davies ar golli ei briod, Hazel.

Y gwestai oedd y Prifardd Idris Reynolds, llenor ac awdur toreithiog, bardd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy 1989 a Cheredigion 1992. "Cofio T. Llew" oedd ei destun ac fe gafwyd anerchiad cofiadwy ganddo yn cynnwys detholiadau wedi eu dewis yn feistrolgar o waith y bardd a'r llenor.

Buom yng Nghwm Alltcafan ac am funud neu ddau yn ymgolli yn y rhamant, y chwedloniaeth, y traddodiadau gwerin a hanes bro T Llew. Yr oedd ei brofiadau cynnar ym Mwlch-melyn ger Pentre-cwrt ble y'i ganwyd yn 1915, yn Iet Wen, ac yn yr ysgolion yng Nghapel Mair a Llandysul. Yn y tridegau bu'n ddisgybl-athro yn ei hen ysgol a bu'n dal nifer o swyddi yn lleol cyn iddo ymuno â'r Llu Awyr yn 1940 a hynny yn fuan ar ôl priodi. Erbyn hynny, yr oedd yn adnabyddus fel bardd ifanc ac hefyd fel cricedwr. Ar ôl y rhyfel¸ dilynodd gwrs hyfforddiant dwys i fod yn athro a bu ei benodiad maes o law i Ysgol Talgarreg yn allweddol yn ei yrfa. Aeth o Dalgarreg i Dre-groes, ac yn 1958 fe'i penodwyd yn brifathro yng Nghoed-y-Bryn a bu yno am weddill ei yrfa tan 1976.

O'r pumdegau ymlaen bu ei gyfraniad i farddoniaeth a llenyddiaeth plant Cymru yn gwbl neilltuol. Cyhoeddwyd nifer o'i nofelau i blant yn ystod y chwedegau ynghyd â chyfrol o'i gerddi i blant. Yn ystod ei yrfa, ac wedi ymddeol, bu'n teithio ysgolion ledled Cymru i adrodd storïau i blant. Bu'n fuddugol sawl gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gyda'r englyn "Ceiliog y Gwynt" yng Nghaerffili yn 1950, er enghraifft, ac ar yr awdl yng Nglyn-Ebwy yn 1958 ac yng Nghaernarfon yn 1959. Fe gyhoeddodd Sŵn y Malu, ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth yn 1967 a'r ail, Canu'n Iach yn 1987. Bu'n feirniad yn y Genedlaethol ac mewn eisteddfodau lleol ac ymysg amryw o ddiddordebau eraill, megis llên gwerin a bywyd cefn gwlad, yr oedd ei gyfraniad yn arbennig. Yr oedd ei gyfraniad i'r byd gwyddbwyll yng Nghymru hefyd yn arbennig iawn.

Bu T. Llew farw ym mis Ionawr 2009. Clywsom englyn coffa yn deyrnged iddo ar y diwedd a dyma ni'n cael ein dwyn yn ôl eto am funud i Gwm Alltcafan i gofio amdano.

Y Bnr. Eirwyn Williams a gynigiodd y diolchiadau. Adroddodd yntau englyn i ddiolch i'r siaradwr.

**Cymdeithas Hanes**

Newidiwyd noson cyfarfod mis Hydref i'r nos Fercher gan fod y Gymdeithas Gerdd yn dathlu deg-mlynedd-ar-hugain, a Catrin Finch yn canu'r Delyn yno. Efallai mai'r newid yn y noson, neu'r ffaith ei bod yn noson arw a fu'n gyfrifol bod llai nag arfer yn bresennol. Ond i'r rhai a droes allan, cafwyd noson arbennig yn clywed hanes Henry Richard, Tregaron, yr Apostol Heddwch.

Croesawodd Selwyn Walters y siaradwr gwadd sef Gwyn Griffiths, yn wreiddiol o Dregaron, ond yn awr o Bontypridd, awdur cyfrol Saesneg ar Henry Richard - Apostle of Peace and Welsh Patriot. Rhoddodd hanes y gŵr unigryw yma o ddyddiau ei fagwraeth yn Nhregaron, yn fab i'r Parchedig Ebeneser Richard a'i wraig Mary a hanai o deulu Cyswch yn Llanfair Clydogau; ei anfon i Goleg yr Annibynwyr yn Highbury, Llundain, a derbyn galwad yn 1835 i gapel Marlborough yn yr Old Kent Road. Yn Llundain y treuliodd weddill ei fywyd.

Ond ni anghofiodd ei wreiddiau, a gweithiodd yn ddygn er lles y gweithiwr cyffredin. Siaradodd yn glir yn erbyn adroddiadau'r Llyfrau Gleision; tynnodd sylw at yr annhegwch a ddaeth i ran tenantiaid a wrthwynebai safiad politicaidd eu meistri tir. Roedd yn heddychwr pybyr; barnai fod pob rhyfel yn atgas, a siaradodd yn blaen yn erbyn Llywodraeth Prydain a'i hymwneud â Rhyfel y Crimea ac ymgyrchoedd militaraidd eraill. Trefnodd sawl cynhadledd ar hyd a lled gwledydd Ewrop yn annog gwledydd i gymrodeddu, a miloedd o bobl yn dod ynghyd.

Yn 1868 fe'i etholwyd, fel Rhyddfrydwr, yn Aelod Seneddol dros Ferthyr Tydfil, ond cafodd y llys-enw 'Yr aelod dros Gymru' a chadwodd ei sedd yn ddiwrthwynebiad am 20 mlynedd hyd ei farw yn 1888.

Wrth ddiolch i Gwyn Griffiths, nododd y Cadeirydd pa mor addas oedd i ni glywed hanes y gŵr mawr yma yn ystod blwyddyn dathlu ei ddau-canmlwyddiant, ac yn ei sgil cael hanes Cymru, Prydain Fawr, Ewrop a'r byd ehangach.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 20fed, am 7.30 yh yn Yr Hen Neuadd, pan fydd Selwyn Walters yn rhoi hanes Nyrs Ella Richards, (1887-1918), merch o Lambed a aeth i weithio ar faes y gad yn Salonica. Croeso cynnes i bawb.

# Llanbedr Pont Steffan

**Diolch**

Dymuna Tim a Joan Jones, Llainwen, Rhodfa Glynhebog ddiolch i'r perthnasau, cymdogion a'r ffrindiau am y cardiau, y cyfarchion a'r dymuniadau da, y blodau, yr anrhegion a'r cyfraniadau hael sydd wedi cyrraedd £500 tuag at Sefydliad y Galon Cymru ar achlysur eu priodas aur yn ddiweddar.

**Aelwyd yr Urdd**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fawrth 9 Hydref yn Ysgol Bro Pedr.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn i ddod:

Ysgrifenyddion Natalie a Lleucu, Cadeiryddion Elan a Teon, Trysorydd Meirion, Gohebwyr y Wasg Caryl a Rhiannon. Cytunodd Geinor Medi a Janet gario mlaen fel arweinyddion. Trefnwyd rhaglen amrywiol ar gyfer yr wythnosau nesaf yn cynnwys noson ffilm a popcorn, hwyl Calan-gaeaf gyda Geinor, a gweithgaredd arbennig i ddathlu'r Nadolig. Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi treulio noson ddifyr yng ngofal Rhydian o'r Urdd yn chwarae gêmau Nintendo Wii. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno â ni. Yr ydym yn griw cyfeillgar a bywiog sy'n cael llawer o hwyl. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 6 Tachwedd o 7 hyd 8.15.

Bydd yr aelodau yn cymryd rhan yn oedfa Sul yr Urdd yn Noddfa nos Sul 25 Tachwedd am 5 o'r gloch. Cesglir tuag at achos da - manylion pellach i ddod.

**Gwellhad Buan**

Roedd pawb yn yr ardal yn flin i glywed bod John Morgan, Maesyfelin neu John Post fel mae pobol Llambed yn ei adnabod, yn yr ysbyty yn dilyn cwymp yn ei gartref yn ddiweddar. Yr ydym i gyd yn meddwl amdano, yn enwedig gweinidog ac aelodau Noddfa. Fel y gŵyr pawb, mae John yn ddiacon ffyddlon a gweithgar iawn yno.

Dymuniadau gorau, John, am wellhad buan iawn.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

**Noddfa**

Braf oedd gweld cynulliad teilwng o aelodau, rhieni a ffrindiau wedi dod ynghyd i Noddfa nos Sul 21 Hydref i Oedfa Ddiolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet. Yn cynorthwyo roedd ieuenctid Noddfa, Bethel a Chaersalem. Roedd pawb o'r lleiaf at yr hynaf wedi cyflawni eu gwaith yn raenus ac yn ddeallus iawn. Diolchwyd i Dduw ar lafar ac ar gân am ei holl fendithion a chofiwyd hefyd am y miloedd sy'n dioddef ar draws y byd, yn cynnwys Cymru. Bu Dafydd Hughes, Siôn Evans, Osian Roberts, Beca Roberts a Steffan Roberts yn cyhoeddi'r emynau ac offrymwyd gweddïau gan Lisa Evans a Tomos Rhys. Y llefarwyr oedd Alwyn Roberts, Alwena Evans, Aron Davies, Dewi Uridge, Elan Jones, Llinos Evans a Sian Roberts Jones. Pleser oedd gwrando ar Gwenllian Jones yn adrodd, Lowri Elen yn cyflwyno "Cân Dafydd"o waith y diweddar Mrs Verina Matthews a Tomos Jones ac Osian Jones yn sgwrsio ac yn trafod hanes Iesu yn porthi'r pum mil. Hefyd mwynhawyd datganiadau Lisa, Elan a Beca a grŵp y mamau a'r plant, heb anghofio cyfraniadau arbennig aelodau ieuengaf yr Ysgol Sul mewn pennill a chân - roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando arnynt.

I gloi'r gwasanaeth ymunodd y gynulleidfa i ganu'r emyn poblogaidd Preseli, y geiriau o waith y Parchedig W.J Gruffydd gyda Dewi, Aron a Steffan yn canu'r penillion.

Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Owen a chyfeiliwyd i'r plant gan Alwena a Janet.

Talodd ein gweinidog y Parchedig Jill Tomos deyrnged uchel i'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni am oedfa fendigedig oedd yn dangos paratoi manwl, i Janet am gydlynu'r cyfan, i Derek am baratoi'r llwyfan ac i bawb am eu cefnogaeth. Aeth pawb o'r oedfa gan deimlo mai da oedd cael bod yn bresennol i werthfawrogi cyfraniadau clodwiw yr ifanc mewn oedfa gofiadwy i gydnabod haelioni Duw.

**Lansio Cyfrol**

Cafwyd noson hyfryd iawn yn Noddfa ar 18 Hydref yn lansio cyfrol Gerald Morgan sef "Dathlu Llanbedr Pont Steffan Drwy Emyn". Llywyddwyd yn ddeheuig gan yr awdur ac estynnodd groeso cynnes i bawb cyn mynd ymlaen i gyflwyno'r unawdwyr dawnus, sef y Canon Aled Williams, Elan Jones, Gwenann Jones, Kees Huysmans a'r cyfeilyddion Lois Williams, Elonwy Pugh a Janet Evans. Mae'r gyfrol yn cynnwys 25 o emynau amrywiol yn gyflwynedig i holl eglwysi'r dref, i nifer o unigolion fel Timothy, Elin (Aelod Cynulliad), Shân Cothi, Gillian Elisa a'i brawd Alun, i deuluoedd fel teulu Frondolau, Tanlan a Gelligwenyn, i fusnesau lleol ac un hefyd i Clonc. Profiad pleserus iawn oedd gwrando ar yr unawdwyr yn canu chwech ohonynt sef Noddfa, Soar, Emmaus, Clonc, Mount Carmel a Wynzie. Roedd pawb wedi mwynhau eu datganiadau yn fawr iawn.

Diolchodd Gerald yn ddiffuant iawn i'r unawdwyr am wledd o ganu ysbrydoledig a hefyd i'r cyfeilyddion am eu cyfraniadau gwerthfawr hwythau ac i Janet am ei chymorth gyda'r trefniadau.

Mae'r gyfrol ar werth yn siop Y Smotyn Du ac yn Yr Hedyn Mwstard. Bydd punt o werthiant pob cyfrol yn cael ei gyflwyno i Adran ac Aelwyd yr Urdd yn lleol. Mae'r swyddogion a'r aelodau yn ddiolchgar iawn i Gerald am ei garedigrwydd.

**Merched y Wawr**

Yng nghyfarfod mis Hydref Merched y Wawr Llambed cafwyd noson ddiddorol a phleserus yng nghwmni gŵr gwadd y noson sef Meirion Jones yr arlunydd. Cyn i Noleen, y llywydd, groesawu Meirion a'i wraig Joanah i gangen Llambed, diolchodd i bawb am y cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd hi a'r teulu yn ystod eu profedigaeth adeg colli ei mam.

Yna fe aeth Noleen ymlaen ac estyn croeso cynnes i Meirion i gangen Llambed. Roedd hi'n bleser cael gweld gwaith Meirion a chael eglurhad ganddo am gefndir ei luniau a'r grefft o arlunio. Diolchodd Aerwen iddo ar ran yr aelodau am ddod, ac am yr ysbrydoliaeth a gafwyd wrth weld yr arddangosfa o'i gelfyddyd wych. Diolchodd Aerwen hefyd i'r aelodau a wnaeth y te ac am y bisgedi.

Yn y cyfarfod a ddilynodd, cyhoeddwyd bod y gangen wedi derbyn cerdyn o ddiolch i Janet a'r aelodau ac i ieuenctid a mamau Ysgol Sul Noddfa am gynnal oedfa arbennig bore Sul penwythnos preswyl Cenedlaethol Merched y Wawr ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, oddi wrth Tegwen Morris, Trefnydd Cenedlaethol.

Bydd y gangen yn cynnal eu Cinio blynyddol yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen ar y 12fed o Ddachwedd.

**Gyrfa Chwist**

Ar 26ain o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion: 1af – Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach. 2il – Ifan J. Jones, Bro Henllys, Felinfach. Cydradd 3ydd – Gwendoline Davies, Llanwnnen a Edward Lockyer, Hafandeg. Merched: 1af – Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambed; 2. Margaret Jones, Pentrebach; 3, Beryl Roach, Bro Henllys, Felinfach. Carden Miniature – Merched – Lil Jones, Llambed. Dynion – Peter Jones, Llambed. Bwrw allan – Enillwyr – Dai Davies, Cellan a Mai Williams, Tregaron. Ail – Lil Thomas, Ffostrasol a Ray Jenkins, Llanybydder.

Ar y 10fed cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion -1af – Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed. Cydradd 2il – Mai Williams, Tregaron a Ray Jenkins, Llanybydder. Merched – 1af – Ceri Lloyd, Ffostrasol; 2. Mair Davies, Penshinrig, Cellan; 3. Catrin Davies, Aberaeron. Carden Miniature – Dynion – Edward Lockyer, Hafan deg, Llambed. Merched – Lil Jones, Llambed. Bwrw allan – Enillwyr – Mai Williams, Tregaron a Lil Thomas, Ffostrasol. Ail – Gwyneth Williams, Prengwyn a Ifan John Jones, Bro Henllys, Felinfach.

Bydd y Gyrfaoedd Chwist mis Tachwedd ar y 7fed a'r 21ain.

Croeso cynnes i bawb.

# Llanwnnen



Tîm Pêl Droed 5 bob ochr Ysgol Llanwnnen sef, Idris Lloyd, Lewis Jarvis Blower, Lauren Morgan, Sasha Evans, Heledd Jenkins a Carwyn Rosser wedi eu llwyddiant yn ennill cystadleuaeth cylch yr Urdd. Enillodd y tîm bob un o'i gemau ac fe ânt ymlaen yn awr i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf.

# Corsgoch

**Priodas Aur.**

Hoffai Gwyneth a Wyn Morgans, Pensarnau, ddiolch i bawb am y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur. Bydd yr arian yn cael ei gyfrannu at elusen 'Parkinsons'. Diolch i'r bechgyn a'r merched yng nghyfraith am y te parti bendigedig ac i'r llond tŷ o deulu a ffrindiau fu'n ymweld yn ystod y dydd.

**Priodas Aur**

Dymuniadau da i Gwilym ac Eirwen Evans, Gwynfryn a fydd yn dathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Tachwedd. Iechyd da eto i chwi i'r dyfodol.

# Ysgol Bro Pedr



Rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr gydag arddangosfa o waith yn seiliedig ar yr awdur T Llew Jones.



Rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 yn mwynhau gweithdy a drefnwyd gan Asiantaeth Fwyd Cymru yn ddiweddar.

**Uned Iau**

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y cyfnod canol yn neuadd y Campws Hŷn a Chwrdd Cyfnod 1 yn y Campws Iau. Bu'r disgyblion yn diolch i Dduw ar lafar ac ar gân. Diolch i bawb a gymerodd ran a diolch i'r staff a fu'n paratoi'r disgyblion. Casglwyd tuag at Ymchwil y Cancr ac Apêl Bocsys Nadolig Blythswood. Bu disgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn canu, llefaru, dawnsio ac actio mewn clyweliadau gogyfer â'r Sioe Dalent a drefnwyd gan aelodau'r Campws Hŷn a bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn dewis y deuddeg olaf i ymddangos ar y llwyfan. Diolch i Klean Dalton a'r tîm am roi o'u hamser prin i drefnu a diolch i bawb a aeth i'r clyweliadau. Cafodd rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfle i ymweld ag Eglwys Sant Pedr a chael sgwrs gyda'r Ficer yno a gweld yr addurniadau hardd oedd yno gogyfer â'r Oedfa Ddiolchgarwch. Etholwyd aelodau newydd i'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco am y flwyddyn sydd i ddod a chafwyd cyfarfod buddiol yn y Campws Hŷn i ddechrau trafod gweithgareddau a phenderfyniadau'r flwyddyn. Gwnaeth disgyblion o flynyddoedd 4,5 a 6 gynnal adloniant yn Neuadd Fictoria yn ystod y te i'r "Ifanc eu Calon." Diolch i Mrs Ann Morgan a Miss Sandra Davies am baratoi'r plant mor drylwyr. Ar y Diwrnod Cenedlaethol i gofio'r awdur enwog T. Llew Jones, daeth Carol Byrne Jones i'r Ysgol. Hi oedd cynhyrchydd y ffilm Tân ar y Comin a bu'n trafod ac yn cynnal gweithdy gyda phlant blynyddoedd 5,6,7 ac 8. Cafwyd bore buddiol a hwyliog. Diolch i Mrs Carys Lewis am drefnu. Bu plant yr Ysgol hefyd yn cwblhau gweithgareddau er mwyn cyfrannu at arddangosfa yn y fynedfa am T. Llew Jones. Diolch i Mrs Rh. Lewis, Mrs Rose Rowcliffe a Mrs Anita Evans am gydlynu'r gwaith. Cynhaliwyd noson i gyflwyno Llythrennau a Synau i rieni'r ysgol gan aelodau tîm ymgynghorol y Sir a diolch iddynt am eu paratoadau. Mae hon yn rhaglen ffonolegol sy'n annog y plant i ddysgu llythrennau ac adeiladau geiriau mewn modd hwyliog. Cafodd disgyblion blynyddoedd 4,5 a 6 gyfle i wylio sioe a drefnwyd gan Asiantaeth Fwyd Cymru a gweithdai yn dilyn a oedd yn sôn am lendid yn y gegin. Roedd y sioe a'r gweithdai'n fuddiol tu hwnt ac rwy'n siŵr y bydd y plant yn cofio'r ffeithiau a ddysgwyd yn glir. Diolch i Mrs Zinn am ddod i'r Ysgol i siarad â disgyblion blynyddoedd 5 a 6 am y pyramidiau yn yr Aifft sy'n rhan o'n thema y tymor yma, sef "O am fyd rhyfeddol" sy'n rhan o gwricwlwm newydd sbon y mae'r Ysgol wedi ei fabwysiadu.

**Uned Hŷn**

Gwirfoddolwyr y Mileniwm: Llongyfarchiadau i'r canlynol o flwyddyn 13 Dewi, sy'n wirfoddolwyr y Mileniwm, gydag Urdd Gobaith Cymru: Beca Creamer, Rhian Milcoy, Sioned Hatcher, Lynwen Mathias, Ceris Quan, Marian Thomas, Delun Davies a Sioned Douglas, am 50 awr o waith gwirfoddol, ac i Elin Gwyther a Sioned Davies am 100 awr, rhwng Medi 2011 a Mawrth 2012. Fe lwyddon nhw i ennill y tystysgrifau hyn drwy arwain y Clwb Cymraeg; gweithgareddau yng Ngwersyll Glan-llyn; y Clwb Bonjóur; Pryd ar Glud; Clybiau Darllen, a'r Cysylltiadau Cynradd/Uwchradd. Diolch i'r tîm am eu cyfraniad gwerthfawr a'u brwdfrydedd.

Adran Saesneg: Ddechrau mis Medi eleni, aeth yr Adran Saesneg â chriw mawr o ddisgyblion y sector uwchradd i Lundain i weld yr addasiad llwyfan o nofel Michael Morpurgo, 'Warhorse'. Roedd y sioe yn anhygoel, ac fe wnaeth y disgyblion fwynhau'r daith yn fawr iawn.

Y Gornel Alwedigaethol: Mae dechrau'r flwyddyn academaidd newydd wedi profi i fod yn un brysur iawn i'r myfyrwyr galwedigaethol wrth iddynt geisio gwella eu sgiliau ymarferol. Mae disgyblion Teithio a Thwristiaeth blwyddyn 13 wrthi yn trefnu ymweliad i rywle cyffrous, efallai rhywle dramor, tra bod y criw Busnes wrthi'n meddwl am syniadau ar gyfer sefydlu busnes. Mae'r criw Iechyd a Gofal, serch hynny, yn ceisio gwella'u sgiliau gofal drwy gynorthwyo yng Nghanolfan y Bont a'r ysgol Iau. Cafodd disgyblion blwyddyn 12 y cyfle i flasu tipyn o fentergarwch wrth iddynt gymryd rhan mewn Diwrnod Menter ddechrau'r tymor. Gosodwyd her iddynt yn ystod y dydd i redeg Bar Gwin. Bu cyfle i chwarae rôl rheolwyr a bu'n rhaid wynebu a datrys problemau ar hyd y daith. Cafwyd canmoliaeth uchel gan y trefnwyr am ymateb y disgyblion. Diolch i Yrfa Cymru am drefnu'r gweithgareddau.

Yr Adran Gelf: Cyn i'r ysgol orffen am wyliau'r haf enillodd Harri Newton (bl.8) gystadleuaeth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru am ddylunio carden Nadolig, a daeth Nikita Petry (bl. 9) yn drydydd. Penderfynwyd defnyddio cynllun Harri ar gyfer eu cardiau Nadolig eleni, ac fe roddwyd ei garden mewn arddangosfa yn ystod y Sioe Frenhinol eleni hefyd. Yn ogystal, cafodd Harri a Nikita docynnau am ddim i fynd i'r sioe, a dydd Mawrth Gorffennaf 24ain, cyflwynwyd tystysgrifau i'r ddau ar lwyfan yn y sioe. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch. Cynhaliwyd cystadleuaeth gan y 'Steffan Veterinary Group' llynedd hefyd. Y dasg oedd dylunio logo ar gyfer y busnes. Llongyfarchiadau mawr i Rhodri Price, 11P ar ennill y gystadleuaeth; gall ei logo gael ei weld ar system gyfrifiadurol y busnes bellach.

Y Chweched: Yn dilyn canlyniadau arholiad TGAU ardderchog, roedd yn hyfryd gweld cynifer o ddisgyblion yn dychwelyd i Flwyddyn 12 eleni. Cynhaliwyd y diwrnod ymdrwytho ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Campws Llanbed, ddydd Llun Medi'r 10fed pan gafwyd cyfle i fwynhau darlithoedd ar ddatblygu sgiliau hanfodol a llawer mwy.

Llain: Ddydd Gwener, Medi'r 7fed, cafwyd llawer o hwyl yng Nghanolfan Gweithgareddau Llain gyda'r Flwyddyn 12 newydd yn cwblhau gweithgareddau adeiladu tîm. Erbyn diwedd y diwrnod roedd pawb yn wlyb at y croen ac yn hen gyfarwydd 'da mwd ond roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy, er hynny!

Yr Adran Addysg Gorfforol: Karate: Mae'n bleser cydnabod campau ardderchog Charlie Roper 9G, Harriet Roper 8P ac Eddie Roper 7P. Erbyn hyn mae gan y tri ohonynt wregys Karate du ac, yn ogystal, mae Charlie yn cystadlu dros Gymru. Da iawn chi!

Llain Bl. 10: Ym mis Medi eleni, cafwyd llawer o hwyl yng Nghanolfan Gweithgareddau Llain gyda chriw Ymarfer Corff TGAU Blwyddyn 10. Bu cyfle i weithio fel tîm wrth ddysgu dringo a defnyddio caiac.

Yr Adran Gerdd: Cystadleuaeth Cyfansoddi: Llongyfarchiadau i Gareth Davies o Lanybydder (Bl.13 llynedd) sydd wedi cael cil-wobr mewn cystadleuaeth gyfansoddi i ysgolion Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Cyflwynwyd ei waith i banel o 6 o feirniaid a dyfarnwyd y safon yn uchel iawn. Llwyddodd i ennill gwobr o £50 a chael gwobr ariannol i'r ysgol hefyd. Pob dymuniad da iddo yn y coleg.

Gweithdy Cyfansoddi: Ar yr 28ain o Fedi bu disgyblion o'r grwpiau Cerdd TGAU ac UG yn Aberaeron mewn gweithdy cyfansoddi a oedd yn gyflwyniad i gynllun cyfansoddwr ifanc Dyfed. Yr ensemble preswyl eleni oedd y grŵp lleisiol 'Y Farthingales' a'r cyfansoddwr preswyl oedd Peter Reynolds.

# Mis y Papur Newydd

**Colofn Dylan Iorwerth**

**Bysus a phrintio arian**

Mi fydd y geiriau nesa' yma yn gwylltio rhai ac yn plesio eraill.

Mae yna wasanaeth bysus da iawn erbyn hyn trwy ran o ardal Clonc.

Mae hynny, yn bendant, yn plesio pobol ardal Llanwnnen ac Alltyblaca sydd bellach yn gallu codi llaw a chyrraedd Aberystwyth o fewn awr a Chaerfyrddin mewn llai na hynny.

Mae'r un ffaith yn sicr o wylltio pobol mewn pentrefi eraill, a gollodd eu gwasanaeth nhw pan oedd y drefn yn newid.

Mae'r wers yn glir o weld y ciwiau bach cyson yn yr lle aros ynghanol Llanwnnen - os oes gynnoch chi wasanaeth trafnidiaeth cyhoeddus digon da, fe gaiff ei ddefnyddio.

Awr i Aberystwyth; chwarter awr dda yn arafach na char. Ond, y pen arall, dim curo llaw yn ddiamynedd ar yr olwyn lywio wrth i'r traffig lusgo o'ch blaen a dim angen gyrru rownd a rownd y dre' yn chwilio am le i barcio.

Ac, efo tocyn un ffordd tua £3 a phris petrol yn dal ar ei ucha', mae'r daith ar fws bellach yn rhatach hefyd. Ddim mor gyfleus wrth gario bagiau siopa neu os bydd hi'n pistyllio bwrw, ond yn llawer mwy diddorol.

Gwell fyth, wrth gwrs, fyddai trên. Meddyliwch pe bai Beeching a'i debyg wedi cadw'u dwylo yn eu pocedi yn hytrach nag estyn am y fwyell. Picio draw i Lanbed neu Lanybydder a chyrraedd Caerdydd o fewn rhyw ddwy awr a hanner.

Neu hyd yn oed gyrraedd y Gogledd. Bws o Lanwnnen i Lanbed ar ôl brecwast, draw at yr orsaf, neidio ar y trên, darllen yr holl ffordd a bwyta cinio Mam. Ac, i bawb arall, sydd heb y cyfle i fwynhau danteithion y bwrdd bwyd yng Nghaernarfon, llai o loris a cheir ar y ffyrdd.

A'r economi fel y mae o, go brin y gwelwn ni ailagor rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin ond mae'r freuddwyd yn fyw.

Ac mae yna wers yn y stori wrth feddwl am y dyfodol. Weithiau mae toriadau amlwg yn costio llawer mwy yn y pen draw.

**Meddwl mewn ffordd arall**

Y tu cefn i'r syniad yna, mae angen ffordd newydd o feddwl. Ac mae angen onestrwydd gan economegwyr a gwleidyddion a'u tebyg.

Bob dydd bron, maen nhw'n pregethu am GDP – gross domestic product – fel petai hwnnw'n rhyw fath o greal sanctaidd.

Os ydw i wedi deall yn iawn, ystyr y term ydi'r holl weithgarwch economaidd – gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau - sy'n digwydd mewn gwlad neu ranbarth ... bron pob gweithgarwch economaidd.

Mae hynny'n golygu bod pethau gwael hefyd yn rhan o GDP. Pe bai yna lifogydd yn Llanbed ac angen trwsio tai a phrynu dodrefn newydd, codi fyddai'r GDP. Os oes gynnon ni fwy o sbwriel i gael gwared arno, a hynny'n golygu rhagor o loris i'w gasglu, mae hynny'n codi GDP.

Ac, wrth gwrs, mae'n cynnwys llygredd. Os yden ni'n gyrru rhagor ar ein ceir, neu'n defnyddio rhagor o lorïau; os ydi ein gorsafoedd ynni ni'n cynhyrchu mwy o drydan neu ffatrïoedd yn chwythu rhagor o nwyon i'r awyr, mae'r GDP yn uwch.

Y tro nesa' y clywch chi rywun yn dweud fod rhaid, rhaid, rhaid codi GDP, mae'n werth cofio'r ochr arall. Oes mae angen cyfoeth, ond rhaid gofyn be ydi'r pris.

Ac o sôn am bris, ro'n i'n gwrando ar y radio y diwrnod o'r blaen ac mi ges fy syfrdanu. Taro i mewn ar hanner rhaglen a chlywed rhyw ddyn yn esbonio sut mae arian yn cael ei greu.

Syml. Bob tro yr yden ni'n benthyg arian o'r banc, mae hwnna'n arian newydd. Nid arian sydd yn y system eisoes ond arian ychwanegol.

Dyna un rheswm, medde fo, pam fod prisiau tai, er enghraifft, yn dal i godi a chodi a chodi, yn llawer cynt na chyflogau a gallu pobol i dalu.

Fel y dywedodd y dyn, mi fyddech chi a fi'n cael carchar am brintio arian, ond mae'r banciau'n gwneud hynny bob dydd.



Cegin *Gareth*
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
*Blodau*
*Cacennau*
*Dathliadau*
*Partïon*


# Yn y Gegin gyda Gareth

**Rysetiau Tymhorol Mis Tachwedd**

Dyma gasgliad o rysetiau sydd yn addas i'w creu y mis yma – efallai ar gyfer 'Noson Tân Gwyllt' neu barti plant. Dyma fwydydd cysurlawn i'r Hydref.

Mwynhewch,

***Gareth***

Cofiwch, mis nesaf fe fydd y gegin yn llawn o ddanteithion 'Dolig.

**Cŵn Poeth gyda winwns gludiog**



Trowch y ffwrn i 180ºC, 350ºF, Nwy 4. Gosodwch 8 selsig ar hambwrdd pobi a choginiwch am 25 munud. Ffriwch ddau winwnsyn wedi'u sleisio'n denau mewn ychydig o olew'r olewydd. Ychwanegwch llond llwy fwrdd o fêl a mwstard grawn. Coginiwch am funud. Gweinwch y selsig a'r winwns mewn rholiau bara.

**Tameidiau o dato a 'Dip Caws'**

Trowch y ffwrn i 200ºC, 400ºF, Nwy 6. Gosodwch 8 taten fawr (tato pôb) wedi'u torri'n chwarteri mewn powlen fawr. Gorchuddiwch â cling film a phobwch am 10 munud yn y popty ping ar dymheredd uchel. Yna, gorchuddiwch ag olew a halen Môn. Rhowch ar hambwrdd pobi a choginiwch am 30 munud.


I greu y dip, cymysgwch 200ml o creme fraiche, 25 gm o gaws wedi'i gratio a dau shibwnsyn. Gweinwch gyda'r tato.

**Sŵp Tomato Cyflym**



Gosodwch gynnwys un tun 395gm o domato mewn sosban gyda dwy lond llwy fwrdd o ketchup a 200ml o stoc llysiau, halen a phupur i flasu. Cynheswch. Malwch y cyfan â hylifwr llaw ac yna ychwanegwch llond pedair llwy fwrdd o hufen dwbwl. Gweinwch mewn cwpan a soser gyda bara.

**Popcorn a Siocled**



Rhowch ddalen o bapur gwrthsaim ar dun pobi 20 x 30cm. Toddwch 200gm o siocled a 200gm o siocled gwyn mewn powlenni gwahanol. Arllwyswch bron y cyfan o'r siocled i'r tun a defnyddiwch lwy i greu effaith marmor. Sgeintiwch 60gm o bopcorn toffi drosto ac yna sgeintiwch weddill y siocled dros y cyfan. Gadewch i oeri ac yna torrwch yn ddarnau anffurfiol.

# Gohebiaeth

S4C, Parc Tŷ Glas
Llanisien, Caerdydd

Annwyl Ddarllenwyr,

Ydych chi'n gwylio rhaglenni gwledig ar S4C? Mae'r sianel yn awyddus i glywed barn ei gwylwyr ar ei rhaglenni gwledig.

Ewch i wefan www.surveymonkey.com/s/gwledigs4c i gwblhau'r arolwg. Diolch yn fawr am gymryd rhan.

*Chris Morris*, Swyddog Ymchwil

Radio Cymru, Bangor.
01248 374 820
sandra.morris@bbc.co.uk

Annwyl gyfeillion,

Wrth i ni ddechrau paratoi at gyfres nesaf Y Talwrn, mae BBC Radio Cymru yn chwilio am leoliadau i gynnal gornestau rhwng y flwyddyn newydd a'r rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Os ydi'ch cymdeithas neu'ch mudiad chi'n awyddus i'n gwahodd i recordio yn eich ardal chi, mae pob croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bost ar y cyfeiriad ytalwrn@bbc.co.uk, neu drwy ysgrifennu atom - Y Talwrn, BBC Bryn Meirion, Bangor, Gwynedd, LL57 2BY.

Gyda diolch,

*Sandra A Morris*, Criw Cynhyrchu Y Talwrn, Radio Cymru

# Llanybydder




Fe ddathlodd Mr Bryn Davies, Acheth, Llansawel ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar mewn parti yn Llansawel. Dymuniad Bryn oedd fod unrhyw roddion i'w rhoi at Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan. Fe gasglwyd £2,100.00. Roedd Banc HSBC Llanbedr Pont Steffan wedi rhoi cyllid cyfatebol at yr achos trwy Mrs Betty Evans. Yn y llun: Mrs Betty Evans, Mrs Doreen Martin, Mrs Enid Humphreys, Mrs Janet Phillips, Ms Jennie Bracher, Ysgrifenyddes, Mrs Meg Smith, Mr Bryn Davies, Mrs Ann Davies, Trysorydd y gangen.

**Eglwys Sant Pedr**

Nos Fercher, 26ain Medi, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys. Siaradwr gwadd y noson oedd y Parchedig Julian Smith, Ficer Llannon. Thema y gwasanaeth yma, a ysgrifennwyd gan Kay, oedd pwysigrwydd diolch am bopeth sydd gyda ni.

Hyfryd oedd cael cynulleidfa dda i glywed darlleniadau, storïau a chaneuon.

Gwnaeth y Parchedig Julian Smith siarad yn bwrpasol iawn gyda'r plant, gan ofyn cwestiynau iddynt. Diolch iddi am ymuno gyda ni yn ein Cwrdd Diolchgarwch.

Diolch i Susan, Eirian, Heulwen, Vicky, Heather, Lewis, Eleri a Natasha, am ddarllen storïau, barddoniaeth a gweddïau. Hefyd diolch i Elin am ganu O Nefol Addwyn Oen mor swynol. Mae llais arbennig iawn gan Elin, ac rydym yn lwcus iawn i'w chael hi yn cymryd rhan yn ein gwasanaethau ni. Diolch i ti, Elin.

Cafwyd dwy gân arbennig gan ferched yr Ysgol Sul. Hyfryd yw cael y merched yn rhan o'n heglwys ni. Rydych yn dod â llawer o hapusrwydd i'r Eglwys! Mwynhawyd eich canu gan bawb, diolch ferched. Diolch i Susan am ddysgu'r merched ac i Jean am chwarae'r organ.

Rhaid diolch i'r holl aelodau a ffrindiau'r Eglwys a ddaeth i'r Cwrdd Diolchgarwch, i Susan am wneud y trefniadau, ac i Kay am ysgrifennu'r gwasanaeth.

Ar ôl y cwrdd aeth nifer dda draw i Westy'r Llew Du i fwynhau Swper y Cynhaeaf. Diolch i staff y Llew Du am wledd o fwyd hyfryd.

Ddydd Sul, 14eg Hydref, cynhaliwyd Cwrdd arbennig yn yr Eglwys. Hyfryd oedd croesawu rhai o blant Ysgol Llanybydder i gymryd ein gwasanaeth. Cafwyd canu ardderchog gan y plant i gyd a chyflwynodd y plant stori hyfryd a chafwyd barddoniaeth bwrpasol iawn ganddynt. Diolch i athrawon yr Ysgol am baratoi'r cyflwyniad ac am ddysgu'r plant.

Gwnaeth Kay siarad â'r plant am ei hoff fwyd. Doniol iawn oedd gweld pa mor 'horrified' oedd y plant wrth i Kay ddangos iddyn nhw fwyd ci, gwair, bisgedi cŵn, peli cnau adar ac yn olaf, mwydod! Pan eglurodd Kay taw esgus oedd hi, a nad dyma ei hoff fwyd, roedd y plant yn falch iawn! Bwyd anifeiliaid oedd ganddi wrth gwrs, a gofynnodd Kay i'r plant egluro pa anifeiliaid sy'n bwyta'r bwydydd yma, a sut mae'r anifeiliaid yn dweud diolch am y bwyd? Atebodd y plant, a dywedodd un fod ei chi hi yn dweud diolch am fwyd trwy roi sws iddi. Gofynnodd Kay i bwy y maent yn dweud diolch am y bwyd y maent yn ei gael bob dydd, ac atebodd y plant eu bod yn diolch i Mam, Dad, Mam-gu neu bwy bynnag sy'n rhoi bwyd iddynt.

I orffen y sgwrs, gofynnodd Kay i'r plant ddweud pwy sy'n rhoi'r bwyd yma i ni, gan egluro yn gyntaf nad Tesco oedd yr ateb! Atebodd un o'r plant taw Duw sy'n rhoi'r bwyd i ni, felly dylen ni roi diolch i Dduw bob dydd. Diolch i Kay am baratoi'r eitem yma, a diolch hefyd i Susan am ei gwaith yn trefnu'r cwrdd. Hyfryd oedd cael yr Eglwys yn orlawn o aelodau, ffrindiau a bobol a ddaeth i gefnogi'r plant. Diolch i bawb am ddod.

Ddydd Sul, 21ain Hydref, croesawyd y Parchedig Bill Fillery nol ir Eglwys, wrth iddo gymryd y gwasanaeth. Cyn dechrau'r cwrdd, rhoddodd Bill ben-blwydd Hapus i Heather, gan ei bod hi yn dathlu ei phen-blwydd yn 60. Hefyd gwnaeth Bill gyhoeddi newyddion da, sef fod Kay a Steve wedi dyweddïo! Braf oedd clywed yr aelodau yn curo dwylo, a phawb yn hapus ofnadw dros y ddau. Pob lwc i'r dyfodol!

Wrth ysgrifennu'r adroddiad yma, mae ein ficer ni, Suzy Bale, bant yn aros gyda'i theulu am fod ei thad yn sâl iawn. Cofiwch gadw Suzy a'i theulu yn eich gweddïau. Cofiwn hefyd am bawb arall sy'n sâl, yn enwedig Cynthia yng Nghaerdydd a Mrs. B. yn Llandysul.

**Pwyllgor Buddiannau'r Henoed Llanybydder**

Cynhelir Pwyllgor Blynyddol yn yr ysgol ar Dachwedd 7fed am 7.00y.h. Croeso i aelodau newydd.

**Ffair Nadolig**

Mae Pwyllgor Gweithgareddau Allanol Llanybydder yn brysur yn trefnu Ffair Nadolig i'w chynnal yn y Llew Du ar Sadwrn y 1af o Rhagfyr am 2 o'r gloch, â gorymdaith gyda chanhwyllau yn dilyn am 4.45. o'r Llew Du at safle'r goeden Nadolig, gogyfer â chynnau goleuadau'r goeden a chanu carolau o'i chwmpas.

Bydd y ffair yn cynnwys stondinau amrywiol gan fusnesau a mudiadau dyngarol gyda chardiau a chrefftau. Bydd te, coffi a diodydd ysgafn a chacennau Nadolig ar werth drwy'r amser. Bydd y bwydydd a'r stondinau dan do.

Bydd côr yr Ysgol Gynradd yno i'ch diddori a gobeithir trefnu ambell ddigwyddiad gwahanol i'ch synnu a'ch swyno. Bydd Santa yno yn ei babell i dderbyn eich llythyron ac i gael clonc fach.

Mynediad am ddim – edrychwn ymlaen at eich cwmni.

**Clwb Hoci Llanybydder**

Mae Clwb Hoci Llanybydder wedi cael dechreuad arbennig i'r tymor gan chwarae 3 ac ennill 3, a sawl gôl wedi'u sgori. Roedd gêm cyntaf y tymor gartref yn erbyn Tregaron, a'r hanner gyntaf yn gyffrous a sawl safiad grêt gan golwraig Tregaron. 1-0 i Llanybydder oedd y sgôr hanner amser, ond erbyn ddiwedd y gêm fe wnaeth Llanybydder ddangos eu doniau ac ennill yn gyfforddus o 7-0. Y sgorwyr oedd Laura (4), Gemma (2), Caryl Rees (1).

Ennill yn erbyn Prifysgol Aberystwyth oedd stori ail gêm y tymor gan fod Laura, Claire a Caryl wedi cael gôl yr un. Braf oedd gweld llu o gefnogwyr a ffrindiau'r tîm wedi dod i wylio'r gêmau cartref.

Gêm oddi cartref wedyn ddydd Sadwrn diwethaf lawr yn Aberteifi yn chwarae yn erbyn Castell Newydd Emlyn. Rhoddodd y tîm cyfan berfformiad gwych a phob un yn rhoi eu gorau glas! Pasio cyflym a chwim, ac yn gwbwl haeddiannol yn ennill o 8-0. Dyma ddechreuad gwefreiddiol i'r tymor, ac mae'r tîm yn mynd o nerth i nerth, gyda chydbwysedd da o chwaraewyr profiadol a rhai ifanc disglair yn rhoi eu gorau yn wythnosol.

Rydym yn ymarfer bob nos Fercher ar yr astro yn Llanbed, yr ieuenctid o 6.30-7.30 a'r merched hŷn o 7-8.30. Croeso i aelodau newydd.

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | | | | 1 | | | | |
| | | | | 6 | 5 | 3 | | 2 |
| | 3 | | 4 | | | | 6 | 8 |
| | | | 2 | | | 9 | 4 | 7 |
| | | | | | | | | |
| 4 | 8 | 2 | | | 1 | | | |
| 2 | 5 | | | | 6 | | 7 | |
| 3 | | 8 | 5 | 2 | | | | |
| | | | | 3 | | | | 6 |

**Atebion Swdocw mis Hydref:**

Llongyfarchiadau i: **Haf Hughes, Cwmere, Felinfach**; a diolch i bawb arall am gystadlu: Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Rob Phillips, Lletyclyd, Llanbedd.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 8 | 9 | 6 | 3 | 5 | 2 | 7 | 1 |
| 3 | 7 | 6 | 8 | 2 | 1 | 4 | 9 | 5 |
| 1 | 5 | 2 | 4 | 7 | 9 | 8 | 3 | 6 |
| 6 | 2 | 1 | 5 | 9 | 8 | 3 | 4 | 7 |
| 5 | 3 | 8 | 7 | 4 | 6 | 9 | 1 | 2 |
| 7 | 9 | 4 | 3 | 1 | 2 | 5 | 6 | 8 |
| 2 | 1 | 7 | 9 | 5 | 4 | 6 | 8 | 3 |
| 8 | 4 | 5 | 1 | 6 | 3 | 7 | 2 | 9 |
| 9 | 6 | 3 | 2 | 8 | 7 | 1 | 5 | 4 |

# Ffarmers

**Ffair Grefftau**

Cynhelir y 9fed Ffair Grefftau yn y Coronation Hall, Pumsaint ddydd Gwener, Tachwedd y 23ain 2012 rhwng 2.00 o'r gloch y prynhawn, a 7.00 o'r gloch yr hwyr a dydd Sadwrn, Tachwedd y 24ain 2012 rhwng 10.00 o'r gloch y bore a 4.00 o'r gloch y prynhawn. Bydd yna hefyd Raffl Fawr gyda'r elw yn mynd tuag at elusen Canser y Fron. Darperir lluniaeth ysgafn ar gyfer ymwelwyr. Croeso cynnes i bawb. Os ydych am ragor o fanylion, cysylltwch gyda Judy Jenkins ar 07780 910170.

**Neuadd Bro Fana**

Mae Cyngor y Neuadd bellach wrthi yn trefnu cyfres o weithgareddau ar gyfer misoedd y gaeaf, gan ddechrau ar y 10fed o Dachwedd gyda Bore Coffi yn y Neuadd rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch. Y Llywydd fydd Mrs Mairwen Davies, Y Felin, Llansawel. Bydd yna amrywiaeth o stondinau ynghyd â raffl.

Y nos Lun ganlynol, sef y 12fed o Dachwedd, byddwn yn croesawu Richard Rees o Lanwrda i roi hanes cynllun gan Gyngor Sir Llundain i 'ddwyn' yr Afon Tywi. Mae Richard wedi ymchwilio yn fanwl i gefndir y cynllun yma na chafodd ei weithredu wedi'r cyfan. Mae hwn yn hanes hynod ddiddorol, ac edrychwn ymlaen yn fawr at glywed cyflwyniad Richard.

Ar y 23ain o Ragfyr, cynhelir ein Cyngerdd a'r Noson Garolau arferol yng nghwmni parti bechgyn 'Ar Wasgar'. Fel arfer, cawn gymorth yr Eglwys a'r Capeli lleol, a chyflwynir elw y noson at achos da.

Bydd Côr Meibion De Cymru yn ymuno â ni am gyngerdd mawreddog ar yr 20fed o Ebrill 2013, gyda'r artistiaid Ina Morgan yn canu, a Georgina Cornock Evans yn chwarae'r delyn. Edrychwn ymlaen i'w croesawi i'r Neuadd.

Brynhawn dydd Sul, y 12fed o fis Mai, 2013, am 3.30, bydd yna Gyngerdd Clasurol yng nghwmni Mrs Perfect a Mrs Wilson. Ceir rhagor o fanylion yn nes at y dyddiad.

**Sioe Cymdeithas Amaethyddol Caeo a Llanycrwys**

Cynhaliwyd y sioe eleni ar ddydd Sadwrn, 1af o Fedi pan ddychwelodd yr haf am ychydig. Y llywydd oedd Jean Edwards, Dolaucanol a daeth tyrfa dda ynghyd i fwynhau'r heulwen braf a gwylio'r cystadlu brwd. Dyma'r canlyniadau:

Pencampwriaeth y defaid - Dyfan Evans, Caegwyn. Cilwobr - Dafydd Lewis, Pentwyn. Defaid Penfrith - Dyfan Evans. Cilwobr - Eirwyn Richards, Cwmcelynen. Defaid cyfandirol - Dyfan Evans. Cilwobr - Teulu Evans, Penybanc. Defaid mynydd lliw - Jones, Llangadog. Cilwobr - Dai Lewis, Brechfa. Defaid Balwen - Mair Williams, Clynglas. Cilwobr - Rh. Thomas, Rhydlydan. Brid croes - Llyr Thomas. Cilwobr - Ian O'Connor, Crugybar. Unrhyw frîd arall - Llyr Thomas, Croft. Cilwobr - Iestyn Richards. Oen tew - Teulu Evans, Penybanc. Cilwobr - Teulu Evans. Oen Swci - Rhian Thomas. Tywysydd gorau o dan 16 oed - Rhian Thomas, Rhydlydan. Barnu Stoc dan 18 oed - Rhian Thomas. Barnu stoc dan 26 oed - Dafydd Lewis, Pentwyn. Barnu stoc Agored - Alan Jones, Henllan. Pencampwriaeth y ceffylau - Eric Williams, Llyscerdd, Llanymddyfri. Ceffylau arwain - Eric Williams. Marchogaeth ceffyl - Cathryn Gardner, Ffaldybrenin. Cŵn o frîd pur - Glenda Lewis, Llwyncelyn. Cŵn eraill - Jane Holmes, Nantyglyn. Cynnyrch fferm - Irwel Jones, Buarth yr oen. Garddio - Jones, Ciliau Aeron. Casgliad o lysiau - Lorraine Baldwin, Wernfeudwy. Blodau - Awena Williams, Glanrhyd. Trefnu blodau - Ethel Davies, Llys Helen. Gwaith llaw - Joan Stacey, Tynwaun. Diwydiannol - Rowena Davies, Troedybryn. Coginio - Ann Douch Maestroiddyn Fawr. Crefftau gwlad - Gwyneth Evans, Talsarn. Ffotograffiaeth - Iris Williams, Crugybar. Arlunio - B. Povey, Crugybar. Plant dan 16 oed - Luned Jones, Maesionydd. Plant 8 - 11 oed - Georgina Price, Maespant. Plant dan 8 oed - Tomi Williams, Abernaint.

# Sarn Helen

Hanner marathon Dale Sir Benfro a Michael Davies yn gorffen yn yr ail safle mewn awr 22 munud 05 eiliad, 8fed Gethin Jones awr 28 munud 41 eiliad, 19eg Simon Hall1 awr 33 munud 10 eiliad, 30 Tony Hall awr 40 munud 19 eiliad, 34 Dee Jolly awr 40 munud 49eiliad. Gorffennodd Allen Watts ras 10K mewn awr 37 munud 36 eiliad.

Andrew Abbot enillodd ras hwyl Llanwenog 43:45, 2il Huw Price 27:40, 3ydd Tony Hall 47: 40, 4ydd Dee Jolly 48:40, 5ed Eric Rees 49:25, 7fed Gareth Jones 52:21 a 13eg Allen Watts 1:31:45.

Ras Twin Peaks Aberystwyth Michael Davies 48:18, Glyn Price 48:23, Andrew Abbot 49:52, Dylan Lewis 50:02, Simon Hall 55:11, Calvin Williams 56:31, Tony Hall 59;44, Dee Jolly 59:48, Sian Roberts-Jones 1 awr 02 munud 29 eiliad, a Helen Willoughby awr 04:51.

Cyfres gyntaf traws-gwlad Gwent ym Mhen-y-bont ar Ogwr a ras gorllewin Cymru. Daniel Jones yn cael ras dda ac yn gorffen yn 11eg, a Beca Jones 26ain yn ras y nofis, Thomas Willoughby 63 a Daniel Willoughby 69 dan 13, Grace Page 52 dan 13, Dan 15 Cailtlin Page yn 9fed ac yn cael y fedal efydd yn ras gorllewin Cymru. Menywod hŷn 62 Helen Willoughby, 66 Sian Roberts Jones, 72 Caryl Davies a 120 Eleri Rivers. Dynion hŷn 48 Glyn Price, 85 Andrew Abbot. Bydd Grace Page, Caitlin Page, Helen Willoughby, Sian Robers Jones, Caryl Davies, Eleri Rivers, Glyn Price a Andrew Abbot yn cynrychioli gorllewin Cymru yn Llanfair ym Muallt ym mis Rhagfyr.

Hanner marathon Ron Skilton yn Llanwrtyd, Dylan Lewis awr 35 munud 09 eiliad, Calvin Williams awr 53 munud 47 eiliad, Dee Jolly 2 awr 03 munud 07 eiliad, a Dawn Kenwright 2 awr 07 munud 17 eiliad.

Ras nesaf y clwb bydd Ras Y Mast, Tachwedd 25ain, yn Blaenwern Llanybydder - ras y plant am 12.30 ac oedolion 1.00y.p.


YSWIRIANT FUW
Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
Arbenigedd lleol
Polisïau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Dewch i drafod eich anghenion gyda
Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu
Gwion James 07980 608337 / 01570 480623
Yn swyddfa Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder

Mwnci ffwnci

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwersi Piano
gan athrawes brofiadol

Cysyllter ag
Ann Bowen Morgan
01570 422413

DAI MECANIC
Arbenigwr mewn:
• Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
• Cynnal a chadw cyfarpar pŵer
DAI JONES
07791 840 500

Carpedi
Gwyn Lewis Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Cefn Hafod Gorsgoch
01570 434238
Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Bwydlen Nadolig ar gael
Croeso cynnes i bawb!

# Llanllwni




Protest yn erbyn melinau gwynt yn Llanllwni.

**Ysgol Llanllwni**

Croeso i Miss Sophie Thomas atom. Mae'n dod bob yn ail wythnos tan fis Chwefror yn rhan o'i chwrs yng Ngholeg Rhydaman. Gobeithio y bydd yn mwynhau yn y dosbarthiadau.

Aeth tîm o'r Adran Iau i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd, Cylch Llambed, yng Nghanolfan Hamdden Llanbed a daethant yn drydydd. Yn y tîm roedd Lewis, Steffan, Ceris, Ifan, Alwyn, Owain a Chloe.

Bu pob plentyn yn cymryd rhan yn oedfa'r Cwrdd Diolchgarwch yn yr eglwys brynhawn dydd Iau, Hydref 4ydd.

Aeth plant yr Adran Iau i Jambori yr Urdd yn Llangrannog brynhawn Gwener, Hydref 5ed. Cawsant lawer o hwyl yn canu yng nghwmni Martin Geraint.

Byddwn yn cynnal casgliad dillad eto sef 'Bag2School' i godi arian at yr ysgol. Os oes gennych ddillad (plant ac oedolion), dillad gwely, parau o esgidiau, teganau meddal, hetiau neu fagiau nad ydych eu hangen, gallwch ofyn i'r ysgol am fagiau glas arbennig neu gallwch ddefnyddio eich bagiau eich hunain i roi'r cyfan ynddyn nhw. Gallwn storio'r bagiau yn yr ysgol neu gallwch ddod â nhw i'r ysgol ar Rhagfyr 11eg am 9.00y.b. pan fydd y lori yn dod i'w casglu. Byddwn yn ddiolchgar iawn am bob bag!

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Hydref: £10.00 – 157 – L. Johnson, Ffynnon Wen, Maesycrugiau. £5.00 – 116 – Mark Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug. £2.50 – 134 – Anne-Marie Benson, Dolgerdd, Llanllwni. £2.50 – 239 – Rhian Glasson, Frondeg, Llanllwni. £2.50 – 102 – Debrah Harris, Gwalia, Maesycrugiau.

**C.Ff.I Llanllwni**

Mae wedi bod yn fis prysur iawn i aelodau'r clwb gyda pharatoi tuag at yr Eisteddfod flynyddol. Cafwyd cryn tipyn o hwyl a sbri yn paratoi tuag at y gwahanol gystadlaethau a'r uchafbwynt oedd gwisgo fel anifeiliaid yn y gystadleuaeth meimo. Enillodd Owain Davies y gystadleuaeth adrodd digri; cipiodd Rhian Davies y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru dan 21 oed ac hefyd fe fuodd yn ffodus i ddod i'r brig yng nghystadleuaeth y monolog. Josh Joynson gafodd y garden goch yn y gystadleuaeth gwaith cartref, sef creu poster. Cafodd Lois Thomas ail yn yr unawd dan 16 oed a Siriol Howells ail yng nghystadleuaeth y frawddeg. Yn y gystadleuaeth llefaru dan 16 oed cafodd Betsan Jones a Mared Phillips gydradd drydydd a Sioned Howells ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth y limrig. Daethom yn drydydd yng nghystadleuaeth y parti llefaru. Erbyn diwedd penwythnos o gystadlu brwd, braf oedd clywed bod C.Ff.I Llanllwni wedi cipio yr ail wobr. Llongyfarchiadau i bawb! Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb a wnaeth helpu'r clwb mewn unrhyw fodd at yr Eisteddfod.

**Cydymdeimlo**

Drwg iawn oedd clywed am farwolaeth Elwyn Evans, gynt o Caerneuadd, Llanllwni. Cleddir ym mynwent Capel Nonni. Estynnir cydymdeimlad dwys i'r teulu a'u ffrindiau.

Hefyd, Cyril Jones, Bryndulais a fu farw yn ddiweddar – yr olaf o hen deulu Frondeg. Yr oedd yn grefftwr o fri ac yn boblogaidd iawn dros ardal eang. Estynnir ein cydymdeimlad i Marina a'r teulu a'r cysylltiadau.

Yn ystod y mis bu farw Douglas Parry, Borthyn ar ôl cyfnod hir o waeledd ac eto estynnir cydymdeimlad i Meg a'r teulu yn eu colled enfawr.

Hefyd, cydymdeimlir â theulu John Davies, Brynhedd gynt a fu farw yng Nghartref Alltymynydd yn ddiweddar.

Diolch i bawb a helpodd gydag Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion eleni, yn enwedig i Elin Williams, Cwmann am feirniadu, a llongyfarchiadau i Bapur Bro Yr Angor am ennill y mwyaf o farciau.

# Cwrtnewydd



Clwb yr Urdd Ysgol Cwrtnewydd mewn Milfeddygfa yn Llambed

**Ysgol Cwrtnewydd**

Yn ystod y mis, bu plant blwyddyn 5 & 6 yn cystadlu mewn cystadleuaeth gyda'r 'young writers'. Treuliwyd bore cyfan yn creu'r barddoniaeth a disgwyliwn yn eiddgar i weld y canlyniadau. Bydd rhai o'r penillion yn cael eu rhoi mewn llyfryn. Felly cadwch lygad am y llyfryn bach! Adroddiad gan Beca Jenkins, Carwyn Davies a Leah Kersey.

Pob nos Fercher mae Clwb yr Urdd. Yn ystod y mis hwn rydyn ni wedi cynnal bingo lle cawson ni siocledi fel gwobrau. Cynhaliwyd hefyd brynhawn yn paratoi cebabs ffrwythau - iym iym. Aethon ni hefyd i'r Milfeddygfa yn Llambed. Hoffwn ddiolch iddyn nhw am adael i ni ymweld â nhw. Roedden ni wedi dysgu llawer. Adroddiad gan Nia Morgans a Libby Waterman.

Yn ystod y mis hwn bu cystadleuaeth pêl droed 5 bob ochr yn y Ganolfan Hamdden yn Llambed. Cystadleuaeth gydag Urdd Cylch Llambed oedd hi. Daethon ni yn ail o fewn ysgolion dan 50 o blant. Adroddiad gan Lleucu Rees, Owen Schröder ac Alaw Jones.

Aeth plant cyfnod allweddol 2 ysgol Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen ar drip i'r Felin Wlân yn Nrefach Felindre. Trip hanes oedd hwn a gafodd ei drefnu gan Mrs Sioned Mills. Cafwyd diwrnod diddorol ac addysgiadol dros ben a phawb wedi joio mas draw! Diolch yn fawr iawn i Mrs Mills am drefnu'r cyfan i ni. Adroddiad gan Catrin Schröder a Jenna Wilson

Ar Fedi 28ain cynhaliwyd prynhawn coffi yn yr ysgol gyda'r elw yn mynd tuag at gronfa Mac Millan. Buon ni fel plant yn helpu'r staff i baratoi llawer o gacennau blasus i'r rhieni a'r ffrindiau a ddaeth i'n cefnogi. Gwnaeth y plant helpu i weini a golchi llestri a gwerthu raffl. Llwyddwyd i wneud elw o £213.67. Diolch i bawb am gefnogi. Adroddiad gan Arwel Willaims a Skye Binding.

Aeth yr ysgol gyfan i weld melin wynt Mr a Mrs Rees Tanrhos. Roedden ni yn dysgu sut mae'r felin wynt yn cynhyrchu trydan. Ein thema wyddonol ni yng Nghyfnod Allweddol 2 y tymor hwn yw "Trydan". Mae'r Cyfnod Sylfaen yn trafod melinau gwynt yn eu gwersi Daearyddiaeth. Diolch i Mr a Mrs Rees am ddangos ni o gwmpas a rhoi gwybodaeth ddiddorol i ni. Adroddiad gan Lois Jones a Zachary Wroe.



Cynorthwyo yn y Prynhawn Coffi

**Arwerthiant Seion**

Cynhelir Arwerthiant Blynyddol Seion ddydd Sadwrn, Tachwedd 24ain am 3.00y.p. Agorir gan Mrs Sian Jones, Fferm Blaenblodau, New Inn. Dewch yn llu i gefnogi.

**60 oed**

Dathlodd Mair Davies, Pantyronnen, Blaencwrt ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau'r dathliad.

**Tim Jones**
**Ffotograffydd**
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed




Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd a noson Guto Ffowc yn prysur agosáu! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth fawr. Ydych chi'n hoffi gwylio tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i wylio tân gwyllt eleni? Ond cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu fod yn beryglus iawn.

Bu llwyth ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun y plant yn casglu dail yr hydref ac roedd ôl ymdrech fawr i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn enwedig i Siwan Mair Jones o Gaerfyrddin, Gwenllian Llwyd o Lanbedr Pont Steffan a Tomos Godfrey o Gwmann. Roedd y rhain yn lluniau lliwgar a gwych. Ond ar y brig y mis hwn mae Ellie Lona Gorman o 71 Maesheli, Aberystwyth. Llongyfarchiadau mawr i bawb.
Ewch ati nawr i liwio llun y tân gwyllt! Danfonwch nhw ataf i cyn diwedd y mis.

Ta ta tan toc





Enillydd y mis!

Ellie Lona Gorman



| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Oed:** |
| **Cyfeiriad:** | |
| | |
| | |

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne




**Llandyfân (47)**

Mae'n bosibl mai ystyr yr enw yw 'eglwys Tyfaen' a Tyfaen felly yn enw personol. Ond yn anffodus does dim ffurfiau cynnar a allai ein helpu i ddehongli'r enw yn gwbl foddhaol. Mae'r ffurf gynharaf ar yr enw sef 'Lh.dyvân' yn digwydd tua 1700, a Llandyfaen yn digwydd yn 1752.

Gellid dehongli Tyfaen fel 'ty-' (elfen sy'n dynodi parch ac sy'n digwydd hefyd yn Llandyfrïog, eglwys Tyfrïog); yr ail elfen yw'r enw personol Maen. Ac yr oedd gan Lywarch Hen fab o'r un enw. Mae'r ffurf Llandyfân yn adlewyrchu'r cynaniad lleol ar 'maen' sef mân'. Y cynaniad lleol ar 'saer maen' yw 'sâr mân'.

Llandyfan yw'r ffurf ar yr enw sy'n digwydd yn 1891 ac mae'r eglwys erbyn hyn wedi'i chysegru i Dyfan. Mae'n debyg bod capel wedi ei adeiladu ar y safle yn ystod yr Oesoedd Canol a'i fod wedi goroesi hyd at y ddeunawfed ganrif. Adeiladwyd yr eglwys bresennol yn 1864-5 gan R K Penson, pensaer Newton House, Llandeilo ac eglwys Llandyfeisant. Yr Eglwys yng Nghymru sydd â gofal yr adeilad presennol. Mae Llandyfân ym mhlwyf Llandeilo Fawr ond ar y ffin â phlwyf Llandybïe.

Mae enw'r nant, sef Gwyddfaen (ond a gynenir Gwyddfân a Gwyddfan), sy'n codi gerllaw'r eglwys yn creu cymhlethdod ychwanegol. Mae Edward Lhuyd yn tynnu sylw at darddfan y nant c 1696 ac yn crybwyll ei bod yn ffynnon iacháu. Roedd Richard Fenton (1747-1821) y bardd a'r dyddiadurwr yn dweud iddo weld yn 1809 y ffynnon ac adeilad bychan heb do wedi'i adeiladu o amgylch y ffynnon a grisiau yn disgyn i'r ffynnon. Mae'n sôn hefyd bod capel bychan gerllaw.

Mae'r nant yn llifo trwy Gwm Gwyddfan i Afon Marlais a honno yn ei thro yn llifo i Afon Llwchwr islaw Llandybie. Yn ôl Thomas Rees yn ei Topographical and Historical Dictionary of South Wales (1815) roedd dŵr y ffynnon yn iacháu'r parlys. Mae'n ei alw'n Welsh Bath sy'n awgrymu bod y cleifion yn mynd i'r dŵr. Mae Gomer Roberts yn Hanes Llandybie yn cyfeirio hefyd at draddodiad o yfed y dŵr o benglog dynol (fel a ddigwyddai yn Llandeilo Llwydarth yn Sir Benfro).

Yn yr oesoedd canol roedd Ffynnon Gwyddfaen yn Llandyfân yn ganolfan bererindota. Er bod yr awdurdodau eglwysig a gwladol yn gwneud eu gorau i rwystro'r arfer wedi i Harri'r VIII fed dorri'r cysylltiad ag Eglwys Rufain, roedd grym y gyfraith yn symud yn arafach yng nghefn gwlad ac yn 1594 daliwyd ryw 200 o bererinon yn ymweld â Ffynnon Gwyddfaen. Ond gwrthododd yr ynad lleol Morgan Jones o Dre-gîb wrando'r achos yn erbyn y pererinion na'u carcharu gan ddweud bod y pererinion yn bobl dlawd, hollol ddiniwed a oedd wedi dod at y ffynnon i ymolchi yn o gobaith o adennill eu hiechyd. Gwnaed cwyn yn erbyn Morgan Jones yn dilyn hyn yn Llys y Seren.

Gellir gweld y ffynnon yn hollol glir ar ffurf siambr pum metr sgwâr a thua dwy fetr o ddyfnder. Er mwyn mynd i mewn i'r ffynnon rhaid disgyn y grisiau cerrig. Llenwir y ffynnon gan ffrwd bwerus sy'n tarddu o un cornel. Er mwyn rheoli dyfnder y dŵr gellid defnyddio dorau i'w godi neu ei ostwng yn ôl y galw.


# Ysgol Bro Pedr








Myfyrwyr bl 12 yng Nghanolfan Gweithgareddau Llain; Rhodri Price a ddyluniodd logo newydd Milfeddygon Steffan; Gwirfoddolwyr y Mileniwm; myfyrwyr blwyddyn 12 yn ystod y Diwrnod Menter a'r tri sy'n wregys karate du - Charlie, Harriet ac Eddie Roper. Adroddiad ar dudalen 15.








# Gweithgarwch yr ysgolion



Carol Byrne Jones, cynhyrchydd ffilm "Tân ar y Comin", gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Bro Pedr Llanbedr Pont Steffan yn dilyn y gweithdy a gynhaliwyd ganddi ar ddiwrnod T. Llew Jones.



Disgyblion Ysgol Llanwnnen gyda'r faner werdd a enillwyd ganddynt yn gydnabyddiaeth am eu gwaith caled yn sicrhau bod yr ysgol yn un eco-gyfeillgar.

I ddathlu Diwrnod T. Llew Jones ar yr 11eg o Hydref, aeth plant a staff Blynyddoedd 3 a 4 Ysgol y Dderi Llangybi i Bentre' Bach i ysgol y môr-ladron. Cafwyd bore o weithgareddau hwyliog iawn yn dysgu, ac yn actio fel môr-ladron dewr!




CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.